

CEIDWADAETH

1. Rhagymadrodd: cyflwyno Ceidwadaeth
2. Gwreiddiau Ceidwadaeth
3. Ffrydiau Ceidwadol
 - a. Ceidwadaeth Draddodiadol
 - b. Ceidwadaeth Ramantaidd
 - c. Ceidwadaeth Dadolaidd
 - d. Y Dde Newydd
4. Elfennau allweddol Ceidwadaeth
 - a. Traddodiad
 - b. Pragmatiaeth
 - c. Amherffeithrwydd dynol
 - d. Cymdeithas organig
 - e. Hierarchaeth
 - f. Awdurdod
 - g. Eiddo
5. Ceidwadaeth a chymdeithas
6. Ceidwadaeth a'r econom
7. Ceidwadaeth yng ngwleidyddiaeth Cymru
 - a. Y Torïaid hanesyddol yng Nghymru
 - b. Y Ceidwadwyr yng Nghymru 1885-1997
 - c. Ceidwadaeth yn oes datganoli
8. Ceidwadaeth a gwleidyddiaeth fyd-eang
 - a. Gwreiddiau Realiaeth wleidyddol
 - b. Realiaeth yr ugeinfed ganrif
 - c. Neo-geidwadaeth
 - d. Neo-ryddfrydiaeth: globaleiddio, datblygiad a Chydsyniad Washington

1. Rhagymadrodd: cyflwyno Ceidwadaeth

Ysgrifennodd Edmund Burke ei glsur, *Reflections on the Revolution in France*, fel ymateb i araith gan yr athronydd o Gymro, Richard Price. Roedd Price wedi croesawu'r newidiadau chwyldroadol oedd ar droed ar dir mawr Ewrop, gan groesawu'r ymosodiad ar awdurdod y Brenin yn Ffrainc fel mynegiant o brosesau hirdymor – rhai oedd yn rhyddfrenio dynoliaeth ac yn ei symud tuag at gymdeithas hapusach, mwy moesol a rhinweddol. Fodd bynnag, roedd dadleuon Price yn wrthun i Burke, yn arbennig ei bwyslais ar egwyddorion sylfaenol a gwerthoedd cyfanfydol. I Burke ffuglen oedd syniadau o'r fath – iddo ef, yr unig werthoedd a moesau oedd o wir sylwedd oedd y rheiny a gafodd eu sefydlu a'u meithrin gan gymunedau organig, ar draws yr oesau. A dyma godi cwr y llen ar thema Geidwadol allweddol – y duedd i ymwrthod ag egwyddorion haniaethol, gan, bwysleisio, yn hytrach, y diriaethol, y traddodiadol a'r hyn sydd wedi dod yn amlwg i bobl trwy eu profiadau dydd i ddydd.

Nid Burke, wrth gwrs, yw'r unig ffigur pwysig sy'n perthyn i'r traddodiad Ceidwadol, ac nid yw'r gwerthoedd a fu'n sail i'w **Geidwadaeth Draddodiadol** yn cynrychioli hyd a lled y syniadaeth. Er enghraifft, cysylltir y Ffrancwr Joseph de Maistre â **Cheidwadaeth Awdurdodaidd**, tra bod traddodiad y **Dde Newydd** yn gymysgfa o syniadau gwahanol, sy'n cwmpasu egwyddorion cymdeithasol **neo-geidwadol** ac egwyddorion economaidd **neo-ryddfrydol**. Yr hyn sy'n tueddu i gysylltu'r ffrydiau gwahanol yma o geidwadaeth yw pwyslais ar rai elfennau allweddol, gyda phob un ohonynt yn rhoi pwyslais ar werthoedd megis **traddodiad, awdurdod a hierarchaeth**, neu'n rhoi gwerth ar gysyniadau megis **pragmatiaeth, amherffeithrwydd dynol, cymdeithas organig** ac **eiddo**.

Mae mabwysiadu safbwyntiau ceidwadol fel arfer yn arwain at arddel barn gref ar bynciau'r dydd. Er enghraifft fe welir dylanwad syniadau Ceidwadol wrth ystyried trafodaethau ar ystod o bynciau llosg cyfoes, megis newidiadau i strwythur y teulu traddodiadol, rôl yr eglwys o fewn cymdeithas, neu arwyddocâd mewnfudo a datblygiad cymdeithas amlddiwylliannol. Yn ogystal, down ar draws safbwyntiau Ceidwadol cryf wrth ystyried trafodaethau ynglŷn â'r economi, gyda rôl y farchnad rydd yn elfen a gaiff ei phwysleisio'n aml – ond eto gyda rhai'n cydnabod bod y wladwriaeth hefyd yn medru ysgwyddo cyfrifoldebau economaidd pwysig.

Yng nghyd-destun **gwleidyddiaeth Cymru**, mae tuedd weithiau i dybio mai traddodiad ymylol iawn fu Ceidwadaeth. Fodd bynnag, dylid gochel rhag diystyru Ceidwadaeth wrth drafod hanes y Gymru fodern. Yn olaf, tra nad yw Ceidwadaeth ei hun yn cael ei gydnabod fel ideoleg allweddol yng nghyd-destun trafodaethau ynglŷn â gwleidyddiaeth ryngwladol, fe welir dylanwad agweddau o'r byd-olwg Ceidwadol wrth ystyried syniadau a dadleuon Realwyr a neo-ryddfrydwyr.

CEIDWADAETH

2. Gwreiddiau Ceidwadaeth

Y consensws ymhlith y mwyafrif o ysgolheigion yw mai ideoleg wleidyddol a ddatblygodd yn ystod blynyddoedd cynnar y bedwaredd ganrif ar bymtheg yw Ceidwadaeth. Honnir bod hyn wedi digwydd fel ymateb i'r gyfres o newidiadau gwleidyddol, cymdeithasol ac economaidd pellgyrhaeddol a oedd yn sgubo ar draws gorllewin Ewrop ar y pryd. Un digwyddiad mawr y mae haneswyr yn tueddu i gyfeirio ato fel symbol amlwg o'r newid hwn – y symud i'r hyn a ddisgrifir fel y cyfnod modern – yw Chwyldro Ffrainc yn 1789. Roedd hwn yn ddigwyddiad gwleidyddol arbennig o arwyddocaol. Yn ystod y Chwyldro gwelwyd yr hen drefn frenhinol absoliwt yn cael eu dymchwel a gweriniaeth newydd yn cael ei sefydlu ar sail egwyddorion blaengar, megis rhyddid, cydraddoldeb a brawdoliaeth (*liberté, égalité, fraternité*). A'r dybiaeth yw mai'r newidiadau gwleidyddol a chymdeithasol a ddeilliodd o'r chwyldro hwn oedd y prif gatalydd i ddatblygiad syniadau Ceidwadol. Mewn geiriau eraill, mai ideoleg a ddatblygodd yn wreiddiol fel ymateb i Chwyldro Ffrainc yn 1789 yw Ceidwadaeth i bob pwrpas.

Mae ambell i ysgolhaig wedi dadlau bod y stori uchod yn gor-symleiddio pethau ychydig a bod tueddiadau Ceidwadol i'w gweld wrth ystyried syniadau gwleidyddol o gyfnodau cynharach. Er enghraifft, mae rhai wedi dadlau dros edrych yn ôl mor bell â chyfnod y Groegwyr cynnar gan hawlio bod themâu Ceidwadol clir i'w gweld yng ngweithiau meddylwyr blaenllaw megis Plato (427-347 CC). Mae eraill yn cyfeirio at waith meddylwyr gwahanol o'r Canol Oesoedd ac yn dadlau bod syniadau Ceidwadwyr mwy diweddar y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn adleisio themâu a ddatblygodd yn wreiddiol yn ystod y cyfnod hwn. Cyfnod arall y cyfeirir ato yw degawdau ola'r ail ganrif ar bymtheg, ac yn benodol, y digwyddiadau yn Lloegr arweiniodd at 'Adferiad' y 1660au a ffurfioli'r drefn o frenhiniaeth gyfyngedig sydd, i bob pwrpas, wedi parhau hyd heddiw. Dyma'r cyfnod lle cafodd y term 'Tori' ei ddefnyddio am y tro cyntaf fel label i ddynodi safbwynt gwleidyddol penodol. Defnyddiwyd ef i grynhoi safbwynt y garfan a oedd o blaid cynnal grym y frenhiniaeth, mewn cyferbyniad â'r Chwigiadaid, a oedd yn deisyfu ei ddiwygio.

Diau bod rhinweddau i bob un o'r dehongliadau uchod. Fodd bynnag, er gwaethaf bodolaeth amryw o themâu Ceidwadol cyn 1789, dim ond yn dilyn y chwyldro mawr yn Ffrainc y gwelwyd Ceidwadaeth yn datblygu i fod yn gorff o syniadau gwleidyddol cydlynol a hunanymwybodol. Ffigur allweddol yn y broses hon oedd yr athronydd a'r gwleidydd Edmund Burke (1729-97). Yn 1790 cyhoeddodd Burke ei gyfrol enwog, *Reflections on the Revolution in France* – darn o waith a gaiff ei ystyried bellach fel un o'r datganiadau cynharaf o egwyddorion Ceidwadol.

Fel yr awgryma'r teitl, cyhoeddodd Burke ei gyfrol fel ymateb i'r digwyddiadau yn Ffrainc flwyddyn yng nghynt ac ynddo amlinellodd Burke pam nad oedd yn gefnogol i'r newidiadau a ddeilliodd o'r Chwyldro. Roedd cwmp disymwth y frenhiniaeth a'r ymdrech i sefydlu gweriniaeth newydd ar sail cred yn rhyddid a chydraddoldeb pob unigolyn yn destun pryder iddo. Ofn Burke oedd y byddai newid cymdeithasol sydyn tebyg i'r hyn a welwyd yn Ffrainc ond yn arwain at gyflwr anarchaidd, di-drefn a'i fwriad wrth gyhoeddi *Reflections* oedd rhybuddio llywodraeth San Steffan yn Llundain rhag gadael i sefyllfa o'r fath ddatblygu ym Mhrydain. Erbyn heddiw, mae'n siŵr y byddai rhai o syniadau Burke yn ymddangos yn gwbl ddi-sail. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio nad digwyddiad trefnus a heddychlon oedd y Chwyldro yn Ffrainc. Gwelwyd

CEIDWADAETH

gwrthdaro gwaedlyd ac arweiniodd cwmp y frenhiniaeth at wrthdaro pellach rhwng gwahanol garfanau. O ganlyniad, gellir deall sut y byddai rhai wedi tybio ar y pryd bod y newidiadau wedi esgor ar gyflwr o anarchiaeth gymdeithasol. Beth bynnag, fel y nodwyd, roedd cyhoeddi *Reflections* yn ddigwyddiad allweddol yn natblygiad Ceidwadaeth ac ar sail y syniadau a amlinellwyd ynddo, daeth Burke i gael ei ystyried fel tad y syniadaeth.

3. Ffrydiau Ceidwadol

Er bod amryw wedi awgrymu y dylid ystyried Edmund Burke fel tad Ceidwadaeth, byddai'n anghywir hawlio bod y syniadaeth wedi datblygu ar hyd un llwybr penodol, gan lynu'n dynn at y dadleuon gwreiddiol a amlinellwyd ganddo yn *Reflections on the Revolution in France* (1790). Yn hytrach, ers cyfraniad cychwynnol Burke mae Ceidwadaeth wedi datblygu mewn ffyrdd amrywiol ac erbyn heddiw gellir adnabod ystod o ffrydiau Ceidwadol gwahanol. Dyma gyflwyno tri o'r rhai mwyaf arwyddocaol.

3.1 Ceidwadaeth Awdurdodaidd

Mae pwyslais ar awdurdod yn tueddu i fod yn nodwedd amlwg mewn gwaith Ceidwadol. Er hyn, erbyn heddiw mae Ceidwadwyr, ar y cyfan, wedi dod i delerau â democratiaeth ac yn derbyn y dylai awdurdod gwleidyddol dilyn ddeillio o 'gydsyniad y bobl'. Fodd bynnag mae rhai Ceidwadwyr wedi arddel safbwynt gwahanol gan ddadlau y dylid ymestyn y pwyslais traddodiadol ar awdurdod i gynnwys cred mewn trefniadau llywodraethol awdurdodaidd (**authoritarian**). Gellir diffinio awdurdodaeth fel cred ym mhwysigrwydd 'llywodraeth oddi fry'; hynny yw, trefniadau llywodraethol sydd ddim yn ddibynol ar gydsyniad ac sy'n pwysleisio, yn hytrach, ddoethineb, gallu a chywirdeb y sawl sy'n arwain. Mae ffydd yn nilysrwydd y dull hwn o lywodraethu yn deillio o gred ym mhwysigrwydd trefn a'r dybiaeth y gellir ond cynnal trefn os yw pobl yn ufuddhau i'r llywodraeth mewn modd di-gwestiwn.

Datblygodd ffrwd o Geidwadaeth a oedd yn pwysleisio themâu tebyg i hyn yn ystod blynyddoedd cynnar y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a bu'n arbennig o ddylanwadol ar draws rhannau o 'gyfandir' Ewrop. Un meddyliwr gwleidyddol a gaiff ei gysylltu â'r ffrwd hon o Geidwadaeth oedd y Ffrancwr Joseph de Maistre (1753-1821). Fel Edmund Burke, roedd de Maistre yn feirniad hallt o ddigwyddiadau'r Chwyldro yn Ffrainc. Fodd bynnag, yn wahanol i Burke, roedd de Maistre am adfer y drefn frenhinol hollbwerus a fodolai cyn y Chwyldro, a hynny heb unrhyw ddiwygiadau er mwyn gwneud y drefn honno yn fwy derbyniol i drwch y boblogaeth. Roedd de Maistre yn gwbl amharod i dderbyn unrhyw newid ar yr *ancien régime* a gafodd ei dymchwel yn 1789. Adlewyrcha'r dadleuon hyn bwyslais y Ceidwadwyr Awdurdodaidd ar yr angen i gynnal trefn uwchlaw popeth arall. Dim ond trwy sicrhau cymdeithas drefnus a sefydlog y gallai pobl deimlo'n ddiogel ac roedd cyflawni hyn, yn nhyb meddyliwyr fel de Maistre, yn galw am ufuddhau'n llwyr i'r 'meistr'. Rhybuddiwyd y byddai newidiadau chwyldroadol, neu, hyd yn oed, diwygio cymdeithasol graddol ac organig, tebyg i'r hyn a ffafriwyd gan Burke, yn gwanhau'r clymau a oedd yn dal y gymdeithas drefnus at ei gilydd ac yn agor y drws i anarchiaeth. Yn wir, yn nhyb de Maistre, dylid hyd yn oed ufuddhau i arweinwyr creulon, gan y byddai cwestiynu awdurdod y bobl hyn ond yn arwain at ansicrwydd a dioddef mwy sylweddol.

Parhaodd nifer o Geidwadwyr Ewropeaidd yn driw i ddadleuon tebyg i hyn am ran helaeth o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, er enghraifft yn Rwsia o dan Tsar Nicholas y 1af a hefyd mewn gwledydd Catholig megis Sbaen, Portiwgal a'r Eidal. Digwyddodd hyn er gwaetha'r don o syniadau Rhyddfrydol, Sosialaidd a Chenedlaetholgar a welwyd yn ennill tir yn ystod y cyfnod hwn; syniadau a oedd yn argymhell amrediad o newidiadau cymdeithasol pellgyrhaeddol. Ar yr un pryd, mewn achosion eraill gwelwyd Ceidwadwyr Awdurdodaidd yn llwyddo i harneisio

CEIDWADAETH

cefnogaeth ymhlith yr etholyddiaeth newydd. Er enghraifft yn Ffrainc rhwng 1804 a 1815 llwyddodd Napoleon i ennill cefnogaeth trwy blethu awdurdodaeth ag addewid o dwf a llewyrch economaidd. Gwnaed rhywbeth digon tebyg, yn yr Ariannin yn ystod y 1940au a'r 1950au pan lwyddodd Juan Perón arddel grym ar sail agenda boblyddol. Rhaid cofio hefyd bod nifer o syniadau cynnar y Natsïaid yn ategu'r pwyslais ar awdurdod, ufudd-dod ac addewid o lewyrch economaidd. Cafodd amryw o'r syniadau hyn eu hamlygu mewn ysgrifau gan yr athronydd Almaenig, Carl Schmitt. Amlyga hyn y ffaith fod Ceidwadaeth Awdurdodaidd yn aml wedi goryffwrdd â syniadau Ffasgaid.

3.2 Ceidwadaeth Draddodiadol

Tra bod amryw o Geidwadwyr cyfandirol y bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi mabwysiadu agweddau a nodweddiwyd gan wrthwynebiad digyfaddawd i newid gwleidyddol neu gymdeithasol o unrhyw fath, gwelwyd traddodiad Ceidwadol mwy cymedrol, ac yn y pendraw, mwy llwyddiannus yn etholiadol, yn datblygu o fewn cylchoedd Eingl-Americanaidd. I raddau helaeth, roedd y traddodiad hwn yn un a oedd yn fwy cydnaws â'r syniadau gwreiddiol a gafodd eu hamlinellwyd gan Edmund Burke.

Yr hyn a oedd wedi peri pryder mawr i Burke wrth ddilyn datblygiadau'r Chwyldro yn Ffrainc oedd y modd cwbl ddisymwth yr aethpwyd ati i ddymchwel y drefn frenhinol a fu'n weithredol am ganrifoedd a cheisio adeiladu trefn cwbl newydd yn ei lle. Roedd hyn yn gam peryglus iawn yn ei dyb ef, fel y datganodd yn y dyfyniad enwog canlynol:

'It is with infinite caution that any man ought to venture upon pulling down an edifice which has answered in any tolerable degree for ages the common purpose of society' (Burke, *Reflections*, 1790: 152).

Credai Burke fod sefydliadau neu arferion traddodiadol sydd wedi llwyddo i oroesi dros gyfnod hir – er enghraifft, yn achos Ffrainc, y frenhiniaeth – yn bethau y dylid eu parchu ac y dylid ymdrechu i'w cynnal. Mynnodd bod traddodiadau o'r fath, trwy oroesi, wedi profi eu bod yn meddu ar werth cynhenid a'u bod wedi dod i ymgorffori gwybodaeth a doethineb hanesyddol pwysig na ddylid ei ddibrisio.

Fodd bynnag, tra bod Burke yn gryf o'r farn bod angen parchu sefydliadau neu arferion traddodiadol, nid oedd o'r farn y dylid gwrthwynebu newid gwleidyddol a chymdeithasol ar bob cyfrif. Yn hytrach, roedd newid gofalus a threfnus – newid a ddisgrifiwyd ganddo fel un organig ei natur – yn dderbyniol. Yn wir, dadleuodd bod newid graddol o'r math hwn yn angenrheidiol er mwyn i gymdeithas a'i harferion a'i sefydliadau traddodiadol fedru goroesi:

'A state without the means of some change is without the means of its conservation' (Burke, *Reflections*, 1790: 285).

Felly, newid graddol er mwyn cynnal y traddodiadol oedd yr hyn a ffafriwyd gan Burke, a dyma'r math o dybiaethau a welir yn amlygu eu hunain yn syniadau'r garfan o Geidwadwyr a ddilynodd ef yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac yna hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif.

CEIDWADAETH

Dyma garfan niferus a gaiff eu disgrifio'n aml fel y Ceidwadwyr Traddodiadol. Label arall a ddefnyddir o bryd i'w gilydd ar gyfer y garfan hon yw'r Ceidwadwyr Tadol.

Yn achos y Deyrnas Unedig, ffigur pwysig a gyfrannodd at esblygiad pellach y traddodiad Ceidwadol hwn oedd Benjamin Disraeli (1804-1881). Fel gwleidydd yr adnabyddir Disraeli'n bennaf – bu'n Brif Weinidog yn 1868 ac unwaith eto rhwng 1874 a 1880 – ond roedd yn nofelydd nodedig hefyd a gwelwyd amryw o'u syniadau gwleidyddol yn cael eu mynegi'n wreiddiol mewn nofelau megis *Sybil* (1845) a *Coningsby* (1844). Cyhoeddwyd y gweithiau hyn mewn cyfnod o dyndra cymdeithasol a gwleidyddol sylweddol. I ddechrau, roedd effeithiau cymdeithasol niweidiol y broses o ddiwydiannu, megis amodau gwaith anodd, pegynnu o ran cyfoeth a phroblemau iechyd, wedi dechrau dod yn fwyfwy amlwg ym Mhrydain a hefyd ar y cyfandir. Yn ogystal, mewn rhannau o Ewrop gwelwyd problemau o'r fath yn cael eu defnyddio gan garfannau gwleidyddol fel sail i wthio am newidiadau cymdeithasol radical. Caiff 1830 a 1848 yn enwedig eu cofio fel blynyddoedd o chwyldroadau a thensiwn gwleidyddol ar draws y cyfandir. Roedd datblygiadau o'r fath yn destun pryder i Disraeli a'i neges wleidyddol fawr oedd bod peryg i Brydain ddod i gael ei rhannu'n 'ddwy genedl': y cyfoethog a'r tlawd. Byddai hyn wedyn yn esgor ar ansefydlogrwydd difrifol. Er mwyn osgoi hyn, dadleuodd bod angen i Brydain ymgymryd â phroses o ddiwygio gwleidyddol a chymdeithasol gofalus.

Wrth gwrs, cyflwynwyd dadleuon tebyg gan Ryddfrydwyr a Sosialwyr yn ystod yr un cyfnod. Fodd bynnag, roedd naws Ceidwadol clir i'r modd y fframiodd Disraeli ei ddadleuon. I ddechrau, pwysleisiodd mai diwygio gofalus a graddol y dylid ymgymryd ag ef. Ond ar ben hynny, gan adlewyrchu ei fyd-olwg Ceidwadol, roedd ei ddadleuon yn cyfuno elfennau pragmataidd ac egwyddorol. Ar y naill law, mynnodd Disraeli y byddai caniatáu i anghydraddoldeb economaidd y cyfnod i ddwysáu ond yn esgor, yn y pendraw, ar chwyldro Prydeinig, tebyg i'r hyn a welwyd mewn rhannau o Ewrop. Byddai hyn yn peryglu statws aelodau breintiedig cymdeithas, ac yn sgil hynny, mynnodd y byddai'n synhwyrol i'r bobl hyn gefnogi diwygio graddol, cyn i bethau fynd yn rhy bell. Gallai diwygio o'r fath warchod buddiannau'r bobl hyn yn y tymor hir. Dyna felly yr ochr bragmataidd i'w ddadl. Ond ar y llaw arall, roedd agwedd foesol ac egwyddorol i'w ddadl. Awgrymodd bod cyfoeth a baint yn esgor ar gyfrifoldeb cymdeithasol, yn arbennig cyfrifoldeb i gynorthwyo'r sawl sy'n dlawd ac yn llai ffodus. Wrth arddel dadleuon o'r fath, nid oedd Disraeli'n closio at sosialwyr neu ryddfrydwyr cymdeithasol. Yn wahanol i'r bobl hyn ni roddai bwyslais mawr ar gydraddoldeb. Yn hytrach, credai yn y syniad Ceidwadol o anghydraddoldeb neu hierarchaeth naturiol. Fodd bynnag, credai fod yr hierarchaeth hon yn esgor ar ddyletswyddau penodol, sef bod disgwyl i'r breintiedig estyn llaw i gynorthwyo'r llai ffodus.

Yn ystod ei yrfa wleidyddol llwyddodd Disraeli i droi'r dadleuon hyn yn weithredu ymarferol. Ef oedd yn gyfrifol am gyflwyno'r 'Ail Ddeddf Ddiwygio' yn 1867, y mesur arweiniodd at estyn yr hawl i bleidleisio i aelodau'r dosbarth gweithiol am y tro cyntaf. Ef hefyd oedd yn gyfrifol am ystod o ddiwygiadau cymdeithasol a gyfrannodd at wella amodau tai a iechyd y dosbarth gweithiol. Yn ogystal, cafodd syniadau a gweithredoedd Disraeli ddylanwad mawr ar fyd-olwg nifer o Geidwadwyr diweddarach. Ym Mhrydain, caiff y garfan hon ei hadnabod fel y 'Ceidwadwyr Un Genedl', sef ffrwd Geidwadol sydd wedi parhau i arddel cred Disraeli yn yr angen i gydbwyso cred mewn traddodiad a threfn gyda pharodrwydd i ymddwyn yn bragmataidd

CEIDWADAETH

ac i gyflwyno diwygiadau cymdeithasol mewn modd graddol a gofalus. Yn wir, dyma ffrwd Geidwadol a brofodd yn ddylanwadol iawn ym Mhrydain yn ystod rhan helaeth o'r ugeinfed ganrif. Tybir ei fod wedi bod yn ganolog i raglenni llywodraethau Ceidwadol Harold MacMillan (1957-1963) ac, i raddau llai, Edward Heath (1970-1974). Er enghraifft, gwelir ei ddylanwad wrth ystyried y modd pragmataidd y bu i'r llywodraethau hyn geisio llywio'r economi, gan gyfuno dyhead i hybu menter breifat ymhlith unigolion gyda pharodrwydd i gydnabod ei bod yn briodol i'r wladwriaeth reoli a rheoleiddio rhai sectorau economaidd arwyddocaol, megis y diwydiannau dur a glo. Yn fwy diweddar, awgrymwyd bod John Major a David Cameron hefyd wedi bod yn wleidyddion a oedd, mewn rhai ffyrdd, yn gogwyddo tuag at y ffrwd benodol hon o Geidwadaeth bragmataidd a graddol.

Gwelwyd Ceidwadaeth Draddodiadol hefyd yn ennill tir mewn rhannau o Ewrop yn ystod y blynyddoedd yn dilyn yr Ail Ryfel Byd. Er enghraifft dyma'r syniadau a fu'n sail i wleidyddiaeth y pleidiau Democrataidd Cristnogol a ffurfiwyd mewn gwelydd megis yr Almaen, Awstria, yr Iseldiroedd a'r Swistir yn ystod y cyfnod hwn ac a brofodd lwyddiant etholiadol sylweddol, yn enwedig yn yr Almaen. Fel yn achos Ceidwadwyr 'Un Genedl' y Deyrnas Unedig, roedd arweinwyr y pleidiau hyn, er enghraifft Helmut Kohl, Canghellor yr Almaen rhwng 1983 a 1998, yn credu y dylid caniatáu i'r wladwriaeth ymyrryd mewn meysydd cymdeithasol ac economaidd cyhyd ag y bo achos pragmataidd o blaid hynny a bod modd cyflwyno unrhyw ddiwygiadau mewn modd graddol.

3.3 Y Dde Newydd

Yn ystod y blynyddoedd yn dilyn diwedd yr Ail Ryfel Byd yn 1945, y byd-olwg graddol, pragmataidd a thadol a gysylltir â'r garfan Draddodiadol oedd yn dal y llaw uchaf o fewn cylchoedd Ceidwadol. I raddau helaeth, roedd poblogrwydd y ffrwd benodol hon o Geidwadaeth yn deillio o barodrwydd cyson i gyfaddawdu: i ddechrau gyda'r don o syniadau democrataidd a fu'n ennill tir yn gyson trwy'r bedwaredd ganrif ar bymtheg; ac yna'n ddiweddarach gyda'r pwyslais cynyddol a roddwyd yn ystod yr ugeinfed ganrif ar yr angen i'r wladwriaeth ymyrryd mewn meysydd polisi cymdeithasol ac economaidd. Yn wir, erbyn y 1950au dadleuodd amryw o sylwebwyr gwleidyddol bod rhyw fath o gonsensws i'w weld yn datblygu ar y tir canol gwleidyddol – consensws a oedd yn cwmpasu ystod o Geidwadwyr Traddodiadol ynghyd ag amryw o Ryddfrydwyr Cymdeithasol a hefyd Sosialwyr Democrataidd. Cyfeirir yn aml at hwn fel 'y consensws Keynesian', gan fod y sawl a berthynai iddo yn tueddu i dderbyn rhai o ddaliadau sylfaenol yr economegydd John Maynard Keynes, yn glŷn â'r angen am drefniadau cymdeithasol ac economaidd a oedd yn cydnabod rôl allweddol y wladwriaeth.

Fodd bynnag, yn ystod y 1970au chwalwyd y consensws hwn gan symudiad gwleidyddol newydd a gaiff ei adnabod bellach fel 'Y Dde Newydd'. Gan fod hwn yn symudiad a welwyd yn datblygu ar ochr dde'r sbectrwm gwleidyddol fe dueddir felly i drin y Dde Newydd fel ffrwd o syniadau sy'n perthyn i Geidwadaeth. Ar y cyfan, mae gwneud hynny'n ddigon priodol. Eto i gyd, mae angen cydnabod nad un corff trefnus o syniadau cydlynol a gaiff eu dwyn ynghyd o dan label y Dde Newydd. Yn hytrach gellir ei ddehongli fel traddodiad sy'n cwmpasu dwy gangen sy'n tynnu ar syniadau sy'n deillio o ddwy ffynhonnell wahanol:

CEIDWADAETH

- Mae'r gangen **neo-ryddfrydol** yn seiliedig ar syniadau Rhyddfrydol Clasurolog ynghlŷn â'r economi, ac yn benodol syniadau meddylwyr megis Adam Smith ynghlŷn â'r angen i hybu marchnadoedd cwbl rydd trwy gyfyngu ar reolaeth y wladwriaeth ar faterion economaidd. Roddwyd sylw o'r newydd i syniadau fel hyn yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif wrth i ymyrraeth economaidd a chymdeithasol y wladwriaeth ddod yn fwyfwy pellgyrhaeddol. Yn wir, erbyn y 1970au tybiwyd mai'r ymyrraeth wladwriaethol hon a fu'n bennaf gyfrifol am yr arafu economaidd mawr a welwyd ar draws gwledydd y gorllewin a'r chwyddiant sylweddol a ddaeth yn ei sgil. Yr ateb, yn nhyb meddylwyr megis yr economegwyr Freidrich von Hayek (1899-1992) a Milton Friedman (1912-2006) oedd mabwysiadu rhaglen wleidyddol radical a fyddai'n arwain at 'wthio'r wladwriaeth yn ôl', gan adael mwy o ofod ar gyfer menter breifat. O ran gweithredu ymarferol, arweiniodd hyn at bwyslais ar breifateiddio gwasanaethau a diwydiannau a fu cynt yn rhan o'r sector cyhoeddus ac felly o dan reolaeth y wladwriaeth.
- Mae'r gangen **neo-geidwadol** yn adeiladu ar syniadau Ceidwadol ynghlŷn â phwysigrwydd trefn, awdurdod a disgyblaeth – syniadau y gellir eu holrhain yn ôl i Geidwadwyr Awdurdodaidd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Rhoddwyd sylw o'r newydd i'r math yma o syniadau yn sgil y dybiaeth bod rhai o'r diwygiadau cymdeithasol a gyflwynwyd ar draws gwledydd gorllewinol yn ystod y 1960au, er enghraifft cyfreithloni ysgaru ac erthylu, diddymu'r gosb eithaf, llacio rheolau ar sensoriaeth a hefyd cydnabod amrywiaeth trwy bolisiau ar amlddiwylliannedd, wedi tanseilio ymdeimlad o sefydlogrwydd a dyletswydd cymdeithasol. Yn sgil hynny, mynnwyd y bu dirywiad difrifol mewn cyfraith a threfn a hefyd mewn moesoldeb cyhoeddus. O ganlyniad, cysylltir y Dde Newydd â dadleuon sy'n pwysleisio rhinweddau'r teulu traddodiadol ac yn cwestiynu'r duedd i gofleidio ffyrdd newydd o drefnu bywyd domestig; dadleuon sy'n cwestiynu'r parodrwydd i fabwysiadu agweddau cymdeithasol mwy goddefgar a rhyddfrydol ar faterion megis rhyw a rhywioldeb; dadleuon o blaid ail-gyflwyno cosbau troseddol llymach, gan gynnwys mewn perthynas â mân-droseddau; a dadleuon yn erbyn mewnfudo a datblygiad cymdeithasau amlddiwylliannol ac aml-ethnig yn sgil y gred bo hyn yn debygol o esgor ar wrthdaro ac ansefydlogrwydd. Yn aml, roedd dadleuon o'r fath yn cael eu mynegi gan gyfeirio'n ôl at orffennol mwy trefnus lle'r oedd pobl yn byw bywydau mwy disgybledig a rhinweddol. Er enghraifft ym Mhrydain byddai lladmeryddion dadleuon o'r fath yn aml yn sôn am yr angen i ail-sefydlu gwerthoedd 'Fictoraidd'.

O ganlyniad, mae'r Dde Newydd yn gorff digon brith o syniadau gwleidyddol sy'n ceisio cyfuno math penodol o ryddfrydiaeth economaidd gydag ymagwedd geidwadol ac awdurdodaidd wrth drafod materion cymdeithasol. Yn hynny o beth, mae'n gorff o syniadau sy'n cyfuno elfennau radical, adweithiol a thraddodiadol oll gyda'i gilydd. Heb amheuaeth, profodd y syniadau hyn yn arbennig o ddylanwadol yn ystod degawdau olaf yr ugeinfed ganrif. Rhoddwyd y mynegiant mwyaf amlwg iddynt yn ystod y 1980au ar ffurf Thatcheriaeth yn y Deyrnas Unedig a Reaganiaeth yn yr Unol Daleithiau. Fodd bynnag nid dim ond ffenomen a brofodd yn ddylanwadol yn y lleoliadau hyn yn unig oedd y Dde Newydd. Bu iddo hefyd adael ei ôl ar wleidyddiaeth mewn rhannau eraill o Ewrop, Awstralia a Seland Newydd. Yn wir, yn achos y syniadau hynny a gysylltir â'r adain neo-ryddfrydol, ymledodd eu dylanwad i bedwar ban byd erbyn cychwyn yr unfed ganrif ar hugain yn sgil y broses o globaleiddio economaidd.

CEIDWADAETH

Er gwaethaf y dylanwad hwn, dylid nodi bod y Dde Newydd yn draddodiad sydd, yn y pendraw, yn seiliedig ar wrthgyferbyniad pwysig rhwng ei ganghennau neo-ryddfrydol a neo-geidwadol. Tra bo'r naill yn pwysleisio'r angen i'r wladwriaeth gamu yn ôl a gadael i unigolion reoli eu materion (economaidd) eu hunain, mae'r llall yn galw ar y wladwriaeth i wneud mwy i oruchwyllo a rheoleiddio ein hymddygiad cymdeithasol, gan gynnig arweiniad (moesol) eglur. Mae rhai wedi dadlau bod hwn yn densiwn sylfaenol sy'n tanseilio'r graddau y gellir dehongli'r Dde Newydd fel un corff o syniadau. Fodd bynnag, os oes rhaid meddwl am y Dde Newydd fel un ffrwd Geidwadol, yna mae'n bosib mai'r ffordd orau o wneud hynny yw trwy feddwl am y sawl sy'n arddel y syniadau hyn fel pobl sy'n credu mewn gwladwriaeth gyfyngedig ond eto un gref, neu fel y noda Andrew Gamble (1981), pobl sy'n credu '*in the free economy and the strong state*'.

4. Elfennau allweddol Ceidwadaeth

Er y gwahaniaethau pwysig a geir rhwng gwahanol ffrydiau, gellir nodi rhai elfennau sydd yn tueddu i gael eu cysylltu â'r byd-olwg Ceidwadol; elfennau sy'n caniatáu i ni wahaniaethu rhywfaint rhwng Ceidwadaeth ag ideolegau gwleidyddol eraill, yn arbennig Rhyddfrydiaeth neu Sosialaeth.

4.1 Traddodiad

Mae'r angen i gadw a chynnal ac i osgoi newid gwleidyddol a chymdeithasol sydyn yn thema bwysig iawn i Geidwadwyr, yn enwedig i'r sawl sy'n perthyn i'r ffrwd Draddodiadol. Golyga hyn bod nifer o Geidwadwyr wedi tueddu i roi pwyslais ar y syniad o draddodiad; hynny yw bod angen parchu a rhoi bri ar wahanol sefydliadau neu wahanol arferion sy'n meddu ar hanes hir.

I ddechrau, fel y dadleuodd Edmund Burke, trwy oroesi dros gyfnod o ddegawdau, neu hyd yn oed ganrifoedd, mae rhai o'n sefydliadau a'n harferion cymdeithasol wedi profi bod iddynt rinweddau. Mae'r ffaith syml eu bod wedi llwyddo i oroesi cyhyd yn brawf eu bod yn medru gweithio'n dda a bod pobl yn gweld gwerth iddynt. Ymhellach, yn sgil eu hirhoedledd, maent wedi dod i ymgorffori doethineb a phrofiad hanesyddol pwysig. O ganlyniad, dadleuir y dylai sefydliadau ac arferion cymdeithasol gwahanol gael eu cynnal a'u datblygu, nid yn unig er budd cenedlaeth heddiw, ond hefyd er budd cenedlaethau'r dyfodol. Gwelir rhai o'r syniadau hyn ar waith wrth ystyried sut y mae rhai Ceidwadwyr yn y Deyrnas Unedig wedi dadlau o blaid parhad y frenhiniaeth. Fel rhan o'r dadleuon hyn ceir cyfeiriadau mynych at y ffaith bod y frenhiniaeth yn sefydliad sy'n meddu ar hanes hir a'i fod, yn sgil hyn, yn sefydliad sydd yn meddu ar stôr o ddoethineb a phrofiad gwleidyddol a chyfansoddiadol pwysig.

Yn ogystal, mae'r pwyslais Ceidwadol ar draddodiad yn deillio o'r gred ei fod yn medru cyfrannu at gynnal ymdeimlad o berthyn a sefydlogrwydd ymhlith aelodau cymdeithas. Tybir bod bodolaeth ystod o arferion cymdeithasol a diwylliannol sy'n gyfarwydd i bobl ac sy'n meddu ar gefndir hanesyddol hir yn atgyfnerthu'r syniad bod unigolion wedi'u gwreiddio yn y gymdeithas ac yn meddu ar gysylltiad pendant a'r cenedlaethau a ddaeth o'u blaen. Ymhellach, dadleuir bod y ffaith fod rhai o'r arferion hyn yn bethau sy'n medru cael eu harddel gan aelodau cymdeithas ar y cyd yn medru hybu ymdeimlad o undod neu gydlynid cymdeithasol.

Yn gyffredinol, mae'r pwyslais ar draddodiad yn amlygu gwahaniaeth pwysig rhwng Ceidwadwyr a Rhyddfrydwyr. Tuedda rhyddfrydwyr i fesur gwerth sefydliadau neu arferion cymdeithasol ar sail eu gallu i wasanaethu anghenion unigolion, yn hytrach nag ar sail eu hoed a'u hanes – os nad yw sefydliadau yn gwasanaethu'r anghenion hyn, yna dylid eu diwygio neu eu diddymu. Anghytuna Ceidwadwyr, fodd bynnag, a dadleuant fod y ffaith fod sefydliad neu arfer penodol wedi goroesi dros amser yn ei hun yn ddigon o reswm i'w mawrygu a'u parchu.

4.2 Pragmatiaeth

Bu tuedd ymhlith Ceidwadwyr i gwestiynu os oes modd i fodau dynol ddefnyddio eu gallu i resymu er mwyn magu dealltwriaeth gyflawn o'r byd â'i holl gymhlethdodau. O ganlyniad mynegwyd amheuan mawr ynglŷn â gwerth dyrchafu corff o egwyddorion haniaethol, megis rhyddid, cydraddoldeb neu oddefgarwch, fel canllawiau i'n harwain wrth ymhél â gwleidyddiaeth ac wrth benderfynu sut ddylid trefnu cymdeithas. Yn hytrach na rhoi pwyslais ar egwyddorion haniaethol, mae nifer o Geidwadwyr wedi pwysleisio'r angen i roi ffydd yn ein profiad ymarferol, gan ymddwyn mewn modd pragmataidd. Golyga hyn y dylai ein penderfyniadau a'n gweithredoedd gwleidyddol gael eu llywio gan ystyriaeth o'r hyn sy'n ymddangos yn ymarferol ac yn briodol ar y pryd, yn hytrach na gan gorff o ragdybiaethau cyffredinol. Mewn geiriau eraill dylid ffafrio beth bynnag sy'n debygol o 'weithio', beth bynnag fo hynny. Un Ceidwadwr adnabyddus a gaiff ei gysylltu â'r safbwynt hwn yw'r Sais, Michael Oakshott (1901-1990). Yn ei dyb ef mae'r byd yn lle llawer rhy gymhleth i gael ei drefnu ar sail corff o egwyddorion haniaethol. Yn wir, mae'r pwyslais ar bragmatiaeth wedi cymell amryw o Geidwadwyr i honni nad ydynt hwy yn arddel ideoleg wleidyddol mewn gwirionedd. Yn hytrach, mae'n well gan feddylwyr megis Oakshott i ddisgrifio Ceidwadaeth fel 'ffordd o feddwl' neu 'ffordd o fyw', lle bo gwybodaeth yn rhywbeth 'ymarferol' a gaiff ei ddatblygu trwy brofiad bywyd, yn hytrach na rhywbeth 'technegol' a gaiff ei gronni trwy astudio gwerslyfrau a ffynonellau ysgrifenedig.

Tra bod pragmatiaeth yn nodwedd sydd, yn draddodiadol, wedi hawlio lle canolog yn y byd-olwg Ceidwadol, mae'n bwysig nodi nad ydyw'n hawlio lle mor flaenllaw mewn trafodaethau Ceidwadol mwy diweddar. Yn wir, mae'r pwyslais a roddir ar egwyddorion sylfaenol yn un o'r nodweddion sy'n gwahaniaethu'r Dde Newydd, a ddaeth i amlygrwydd yn ystod ail hanner yr Ugeinfed Ganrif o amryw o ffrydiau Ceidwadol cynharach, megis y ffrwd Draddodiadol. Er enghraifft yn achos neo-Geidwadwyr a neo-Ryddfrydwyr megis von Hayek, Freedman a Nozick, caiff yr angen i gyfyngu yn sylweddol ar rôl weithredol y wladwriaeth, yn arbennig o fewn yr economi, ei drin fel egwyddor sylfaenol y dylid glynu'n driw ato. Fodd bynnag, yn nhyb Ceidwadwyr Tadol, megis cyn-Brif Weinidog y Deyrnas Unedig, Harold Macmillan, dylid gochel rhag caniatáu i ddylanwad y wladwriaeth ymestyn yn rhy eang, ond ar yr un pryd dylid ystyried caniatáu i'r wladwriaeth ymyrryd mewn meysydd cymdeithasol neu economaidd os oes achos pragmataidd dros wneud hynny.

4.3 Amherffeithrwydd dynol

Mae Rhyddfrydiaeth a Sosialaeth yn ideolegau gwleidyddol sy'n tueddu i ddehongli bodau dynol fel creaduriaid 'da' o ran natur neu sydd, o leiaf, yn meddu ar y potensial i fod yn 'dda', cyhyd ag y bod eu hamgylchiadau cymdeithasol yn caniatáu hynny. Mae Ceidwadwyr, fodd bynnag, yn tueddu i wrthod tybiaethau o'r fath ac yn meddwl amdanom fel bodau amherffaith, ffaeledig. Mae'r pwyslais yma ar natur amherffaith bodau dynol yn amlygu ei hun mewn ystod o ffyrdd gwahanol.

I ddechrau, dadleir mai cyfyngedig yw ein dealltwriaeth o'r byd a'i gymhlethdodau. Mae hyn yn cysylltu'n ôl â'r pwyslais cynharach ar bragmatiaeth. Gan nad oes ganddom y gallu i ddeall y

CEIDWADAETH

byd yn llawn, ofer yw ceisio trefnu cymdeithas ar sail cyfres o egwyddorion haniaethol. Gwell yw gweithredu'n bragmataidd ar sail yr amgylchiadau a wynebwn ar y pryd.

Yn ail, dadleuir fod bodau dynol yn meddu ar wendidau seicolegol pwysig. Hawlir ein bod, ar y cyfan, yn greaduriaid sy'n gochel rhag unigrwydd a diffyg sefydlogrwydd a'n bod, o ganlyniad, yn crefu diogelwch a sicrwydd. Diddorol yw cyferbynnu'r darlun ansicr hwn o unigolion â'r darlun rhyddfrydol o unigolion hyderus sy'n meddu ar y gallu i osod cwrs ar gyfer eu bywydau eu hunain. Y gred yma bod unigolion yn chwennych sicrwydd ac ymdeimlad o berthyn sydd wedi arwain Ceidwadwyr i roi pwyslais mawr ar drefn, gan osod hyn uwchlaw rhyddid ar brydiau.

Yn drydydd, mae tuedd ymhlith Ceidwadwyr i hawlio bod bodau dynol yn meddu ar ffaeledau moesol. Mynnir mai creaduriaid hunanol a barus ydym yn y bôn sy'n tueddu i chwennych grym. Mae cred o'r fath yng ngwendid moesol yr unigolyn wedi arwain nifer o Geidwadwyr i wrthod y gred bod trosedd ac anhrefn cymdeithasol yn bethau sy'n deillio o amgylchiadau cymdeithasol anffodus, megis tlodi neu anghydraddoldeb. Yn hytrach honnir eu bod yn bethau sy'n deillio o wendid moesol sylfaenol ar ran yr unigolyn. Yn fwy aml na pheidio, mae'n bosib olrhain sail y dehongliad yma yn ôl at syniadau am y pechod gwreiddiol, a'r dehongliad Cristnogol o'r natur ddynol (yn gysylltiedig gydag athronwyr megis Awstin Sant) sy'n ystyried bod bodau dynol yn greaduriaid llygredig sydd wedi etifeddu gwendid ac euogrwydd Adda ac Efa. Dyma reswm pellach felly pam fod ceidwadwyr yn tueddu i roi pwyslais ar yr angen am drefn ac am lywodraeth sy'n gweinyddu system gyfiawnder lem er mwyn cynnal y drefn honno.

4.4 Cymdeithas organig

Yn draddodiadol mae Ceidwadwyr wedi rhoi pwyslais ar y syniad fod pob unigolyn wedi'i wreiddio o fewn cymdeithas. Mynnwyd nad yw'n gwneud synnwyr i feddwl am yr unigolyn fel creadur sy'n medru bodoli ar wahân i gymdeithas. Yn hytrach, caiff pawb eu geni i fod yn aelodau o endidau cymdeithasol mwy, er enghraifft y teulu, y gymuned neu'r genedl. Mae cysylltiadau o'r fath yn cyfrannu at ein cynnal, at siapio ein cymeriadau, ac yn cyfrannu at feithrin yr ymdeimlad o berthyn sydd, yn nhyb Ceidwadwyr, yn hollbwysig. Yn wir, y dehongliad hwn o arwyddocâd y cysylltiad rhwng yr unigolyn a'r gymdeithas ehangach sydd wedi peri nifer o Geidwadwyr i ymateb i'r pwyslais rhyddfrydol ar ryddid yr unigolyn trwy ddadlau bod hefyd angen cofio am ddyletswyddau neu ymrwymïadau'r unigolyn tuag at y gymdeithas.

Felly, mae lles y gymdeithas fel endid cyffredinol wedi bod yn ystyriaeth bwysig o fewn y traddodiad Ceidwadol, yn arbennig ymhlith aelodau'r ffrwd Draddodiadol. Wrth nodi hyn mae'n werth hefyd tynnu sylw at y dehongliad penodol o natur cymdeithas sydd wedi cael ei arddel. Yn draddodiadol, mae Ceidwadwyr wedi dehongli cymdeithas fel endid organig: endid byw lle mae rhannau gwahanol yn gweithio gyda'i gilydd yn union fel y gwana'r galon, yr ysgyfaint, yr afu a'r ymennydd yn y corff dynol. Yn achos y corff, mae angen i bob un o'r organau hyn weithio gyda'i gilydd mewn cytgordeu neu bydd y cyfan yn methu. Yn nhyb nifer o Geidwadwyr, mae'r un peth yn wir wrth feddwl am gymdeithas. Tybir bod elfennau allweddol megis y teulu, y gymuned leol, yr eglwys, ynghyd ag ystod o sefydliadau traddodiadol eraill, yn gweithredu fel organau sy'n cynnal bywyd y gymdeithas ac yn sicrhau ei fod yn rhedeg yn esmwyth o ddydd i ddydd. O ganlyniad,

CEIDWADAETH

bu tuedd ymhlith Ceidwadwyr i wrthwynebu datblygiadau sy'n peri newid i natur neu swyddogaeth rhai o'r sefydliadau hyn. Er enghraifft yn achos y teulu mynegwyd pryder ynglŷn â datblygiadau megis y newid ym mhatrymau gwaith rhieni, y newid mewn arferion magu plant, ac yn fwyaf arwyddocaol, y newid yn ein dehongliadau o beth yw ffurf yr uned deuluol a phwy all fod yn rhieni. Yn nhyb y Ceidwadwyr gallai camau o'r fath beryglu'r ffabrig bregus sy'n cynnal cymdeithas.

Yn ystod y degawdau diweddar mae'r dehongliad organig o gymdeithas wedi hawlio lle ychydig yn llai blaenllaw mewn trafodaethau Ceidwadol. Deillia hyn yn bennaf o dwf y Dde Newydd a'r modd y mae cangen neo-ryddfrydol y ffrwd hon wedi tynnu'n groes i nifer o dybiaethau Ceidwadol mwy traddodiadol ynglŷn â natur cymdeithas. Yn y cyswllt presennol yr hyn sy'n arwyddocaol yw bod tuedd y Dde Newydd neo-ryddfrydol i gofleidio'r unigolyddiaeth haniaethol a fu cynt yn nodwedd mor amlwg o Rhyddfrydiaeth Glasurol, wedi arwain at fagu byd-olwg sydd, i bob pwrpas, yn ymwrthod â'r syniad o gymdeithas fel endid cyfansawdd, cydweithredol. Fel yr hawliodd Margaret Thatcher, un o'r gwleidyddion blaenllaw sy'n perthyn i draddodiad y Dde Newydd, nid oes y fath beth â chymdeithas, dim ond casgliad o unigolion a'u teuluoedd.

4.5 Hierarchaeth

Yn draddodiadol, mae Ceidwadwyr wedi dadlau bod hierarchaeth ac anghydraddoldeb yn nodweddion anochel o fewn unrhyw gymdeithas. Golyga hyn eu bod yn tybio bod sicrhau cydraddoldeb cymdeithasol ystyrion, er enghraifft o ran statws, cyfoeth neu rym, yn amcan cwbl amhosib. Yn hynny o beth, ceir elfen o orgyffwrdd rhwng Ceidwadaeth a Rhyddfrydiaeth. Fodd bynnag, tra bo Rhyddfrydwyr yn trin bodolaeth anghydraddoldeb fel cyfaddawd sy'n rhaid ei dderbyn er mwyn caniatáu ar gyfer amrywiaethau o ran chwaeth neu allu ymhlith gwahanol unigolion, tuedda Ceidwadwyr i'w ddehongli fel rhywbeth dyfnach sy'n allweddol i weithrediad cymdeithas – i bob pwrpas, rhywbeth y dylid ei ddehongli mewn termau *cadarnhaol*.

Mae'r arfer o drin anghydraddoldeb cymdeithasol fel nodwedd naturiol a chadarnhaol yn deillio o'r ddelwedd organig sy'n rhan o'r byd-olwg Ceidwadol. Fel yr eglurwyd eisoes, mae nifer o Ceidwadwyr wedi dewis dehongli cymdeithas fel endid byw lle fo rhannau gwahanol yn gweithio gyda'i gilydd yn union fel y gwana organau gwahanol yn y corff dynol. Yn achos y corff, mae pob un o'r organau hyn yn cyflawni swyddogaeth benodol, ac mae Ceidwadwyr wedi dadlau y dylid meddwl am wahanol grwpiau neu ddsbarthiadau o fewn cymdeithas yn yr un modd. Ceir atsain amlwg o syniadau'r athronydd Groegaidd Plato yn y weledigaeth hon. Mynnodd Plato bod aelodau cymdeithas yn perthyn yn naturiol i un o dri grŵp gwahanol: i) y Brenin Athronwyr sy'n rheoli ar sail eu doethineb; ii) y milwyr, sy'n gwarchod y ddinas ar sail eu hysbryd; iii) a'r masnachwyr, sy'n creu cyfoeth ac yn cynnal bywyd y ddinas ar sail eu tuedd i chwennych mwy.

Ar sail y gred bod gan bawb o fewn cymdeithas eu lle a'u swyddogaeth naturiol mae ceidwadwyr wedi mynnu bod yn rhaid derbyn y dylai rhai arwain tra bo eraill yn dilyn; y dylai rhai reoli tra bo eraill yn gweithio; neu y dylai rhai fynd allan i ennill cyflog tra bo eraill yn aros adref i fagu plant. Syniadau tebyg i hyn oedd yn gyfrifol am y ffaith bod Ceidwadwyr Traddodiadol cynnar fel Edmund Burke wedi dadlau o blaid y syniad o 'aristocratiaeth naturiol', sef y dybiaeth

CEIDWADAETH

bod y gallu a'r doethineb i ysgwyddo swyddi adweinyddol o fewn cymdeithas yn rhywbeth cynhenid sy'n perthyn i rai dosbarthiadau uwch yn unig. Ymhellach, mae'r gred mewn hierarchaeth neu anghydraddoldeb naturiol wedi arwain at ddull nodweddiadol Geidwadol o gyfiawnhau polisïau sydd â'r nod o estyn cymorth i aelodau llai ffodus cymdeithas. Yn wahanol i Ryddfrydwyr neu Sosialwyr, nid ar sail ystyriaethau sy'n ymwneud â rhyddid neu gydraddoldeb y gwneir hyn, ond yn hytrach trwy bwysleisio mai braint a dyletswydd y cyfoethog yw estyn cymorth i'r tlawd. Er enghraifft, roedd hyn yn nodweddiadol amlwg o ddadleuon Benjamin Disraeli, y Prif Weinidog Ceidwadol o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a gyflwynodd fesurau mewn meysydd megis tai a iechyd i wella amgylchiadau'r dosbarth gweithiol.

4.6 Awdurdod

Caiff y gred uchod mewn hierarchaeth a natur anochel anghyfartaledd ei hatgyfnerthu gan y pwyslais Ceidwadol ar awdurdod. Tuedda Ceidwadwyr i ddehongli awdurdod fel rhywbeth naturiol sydd, fel cymdeithas ei hun, eisoes yn bodoli ac sy'n cael ei osod arnom 'oddi fry'. O ganlyniad, yn wahanol i Ryddfrydwyr, nid yw Ceidwadwyr o'r farn bod arddel awdurdod dilys yn ddibynnol ar dderbyn cydsyniad clir gan y sawl sydd i ufuddhau. Mynnir y byddai hyn yn ddiystyr, gan mai rôl y sawl sy'n dal awdurdod yw darparu arweiniad, cefnogaeth a chymorth i'r sawl sydd ddim y meddu ar y gallu, y wybodaeth neu'r profiad i benderfynu dros eu hunain. O ganlyniad, yn y cartref dylai rhieni arddel awdurdod mewn perthynas â'u plant; yn yr ysgol dylai athro arddel awdurdod mewn perthynas â'r disgyblion; yn y gweithle dylai'r rheolwr arddel awdurdod mewn perthynas â'i weithwyr; ac yn achos cymdeithas dylai llywodraeth arddel awdurdod mewn perthynas â dinasyddion unigol.

Nid yw'r syniad o awdurdod sy'n deillio 'oddi fry' yn cael ei weld gan Geidwadwyr fel rhywbeth drwg. Yn hytrach, credir ei fod yn cyfrannu at hybu sefydlogrwydd cymdeithasol, gan greu ymdeimlad ymhlith y boblogaeth o'r hyn sy'n ddisgwylidig ganddynt. Yn ogystal, mynnir bod awdurdod clir yn cyfrannu at hybu disgyblaeth. Am y rhesymau hyn, mae Ceidwadwyr wedi tueddu i fod yn garfan sy'n amheus o ymdrechion i herio awdurdod gwleidyddol. Yn wir, yn achos Ceidwadwyr Awdurdodaidd y bedwaredd ganrif ar bymtheg byddai gwneud hyn yn gwbl annerbyniol gan eu bod yn trin awdurdod gwleidyddol beth bynnag fo'u ffurf fel rhywbeth cwbl absoliwt.

4.7 Eiddo

Mae Ceidwadwyr yn gyffredinol yn rhoi pwyslais mawr ar y cysyniad o eiddo. Credant fod sawl rhinwedd yn perthyn i'n gallu i fod yn berchen ar eiddo neu asedau preifat. Fel nifer o Ryddfrydwyr, mae Ceidwadwyr yn cydnabod y ddadl bod perchnogaeth ar eiddo yn fynegiant o haeddiant; hynny yw, bod y ffaith bod unigolyn yn llwyddo i gywain stoc sylweddol o eiddo neu gyfoeth yn deillio o'i barodrwydd i ymdrechu trwy ei fywyd ac i ddefnyddio ei dalentau personol mewn modd adeiladol. Fodd bynnag, mae nifer o Geidwadwyr wedi dadlau bod buddion cymdeithasol a seicolegol ehangach hefyd yn deillio o berchnogaeth ar eiddo.

CEIDWADAETH

I ddechrau, mae meddu eiddo megis tŷ a char, neu feddu ar gynilon sylweddol yn y banc yn estyn elfen o sicrwydd i bobl gan eu bod yn adnoddau y gellir troi atynt i'n cynnal os ydym yn digwydd wynebu amgylchiadau anodd (e.e. diweithdra neu salwch tymor tir). Yn ail, honnir bod cymdeithas sy'n caniatáu perchnogaeth ar eiddo preifat yn un sy'n cymell ei haelodau i barchu'r gyfraith ac ymddwyn mewn modd trefnus. Tybir bod y sawl sy'n berchen ar eiddo eu hunain yn debygol o barchu eiddo eu cyd-ddinasyddion. Byddant yn gwerthfawrogi'r angen i warchod eiddo trwy gynnal trefniadau sy'n atal trosedd ac yn cynnal trefn. Yn drydydd, ar lefel ddyfnach a mwy personol, dadleuir bod meddu ar eiddo yn fodd o ganiatáu i unigolion fynegi eu personoliaeth; hynny yw bod ein heiddo bron yn estyniad arnom ni ein hunain ac yn gyfrwng ar gyfer cyfleu ein cymeriad.

Eto i gyd, er y pwyslais ar gyfraniad cymdeithasol eiddo preifat, yn draddodiadol nid yw Ceidwadwyr wedi dadlau y dylai perchnogaeth yr unigolyn o'i eiddo gael ei gydnabod fel hawl absoliwt. Yn hytrach, mynnwyd bod hawl yr unigolyn i reoli ei asedau a'u gyfoeth yn fater y dylid ei gydbwyso gyda dyletswyddau'r unigolyn hwnnw i'r gymdeithas yn fwy cyffredinol. Fodd bynnag, wrth i syniadau'r Dde Newydd ennill tir dros y degawdau diwethaf (ac yn benodol wrth i adain neo-ryddfrydol y mudiad hwnnw sicrhau dylanwad cynyddol) gwelwyd nifer cynyddol o geidwadwyr cyfoes yn magu agwedd mwyfwy digyfaddawd ar fater eiddo preifat.

5. Ceidwadaeth a chymdeithas

5.1 Y Teulu a'r Eglwys: Priodas Hoyw

Daeth enghraifft ddiddorol o'r berthynas rhwng gwleidyddiaeth geidwadol, y teulu a'r Eglwys i'r amlwg yn 2014, pan gyfreithlonwyd priodas gyfunrywiol yn y Deyrnas Unedig. Y Llywodraeth Geidwadol oedd yn gyfrifol am y ddeddfwriaeth, oedd yn caniatáu'r un hawl i gyplau oedd tan hynny yn gymwys am undeb sifil yn ei le. Roedd y ddeddfwriaeth honno wedi dod i rym yn 2004, o dan lywodraeth Lafur, ac felly i bob pwrpas ymestyn yr egwyddor honno i briodas a wnaethpwyd gan y Ceidwadwyr. Nid newid radical mohoni, felly. Ac eto, roedd yn golygu o hynny ymlaen bod gan sefydliadau crefyddol y cyfle i ddewis cynnig yr opsiwn o briodas swyddogol o barau cyfunrywiol. Prin iawn y mae'r enghreifftiau cyn belled fodd bynnag, gyda'r Crynwyr a'r Undodwyr ymysg yr ychydig grwpiau i benderfynu gwneud. Y mae'r Eglwys Anglicanaidd wedi gwrthod newid ei arfer, sydd yn ategu'r ffaith ei bod yn ystyried y cwestiwn o safbwynt gwahanol i'r Blaid Geidwadol, ei chefnogwyr traddodiadol. Ni chyfiawnhawyd y ddadl gan David Cameron, arweinydd y blaid, ar sail y cysyniad mwy asgell chwith o gydraddoldeb cymdeithasol, fodd bynnag. Yn hytrach fe apeliodd at werthoedd 'traddodiadol' ceidwadol trwy bwysleisio'r gred ym mhwyysigrwydd priodas a theulu fel sefydliadau sydd yn hoelion wyth y gymdeithas. Dyma arddangos pragmatiaeth geidwadaeth ar achlysur, a'r parodrwydd i weld newid 'organig' yng nghymdeithas a thraddodiad. Rhaid cofio, wrth gwrs, nid felly y mae pob gwedd ar geidwadaeth yn ystyried y sefyllfa, gyda'r duedd fwy awdurdodaidd ymhlith aelodau'r Dde newydd neo-geidwadol (yn enwedig yn America) i ddadlau bod angen gwarchod rhag unrhyw newid i sefydliadau neu strwythurau cymdeithasol traddodiadol, gan fod hyn yn debyg o danseilio awdurdod ac arwain at ddiffyg trefn.

5.2 Amlddiwylliannedd: amrywiaeth, integreiddio, mewnfudo

Ers yr Ail Ryfel Byd yn arbennig, nodweddir cymdeithasau gan newidiadau sylweddol yn eu poblogaethau wrth i bobl fudo o un wlad i'r llall. Yn aml iawn, digwyddodd y broses hon oherwydd anghenion gwladwriaethau megis y Deyrnas Unedig a'r Almaen, wrth iddynt ymdrechu ail-greu ac ailsefydlu eu hunain wedi'r rhyfel, yn rhannol trwy ddenu gweithwyr o rannau eraill o'r byd. Yn achos y Deyrnas Unedig, gwelwyd niferoedd sylweddol yn cyrraedd o gyn-wledydd yr Ymerodraeth – pobloedd o dras a chrefyddau gwahanol. Mae'r ymateb ymysg ceidwadwyr Prydeinig wedi amlygu'r gwahaniaethau a'r tensiynau rhwng y sawl sydd yn fwy awdurdodaidd a gwrthwynebus i newid, a'r sawl sydd yn fwy goddefgar ac yn barod i gofleidio diwyg o fewn y gymdeithas. Daeth tensiynau i'r amlwg yn y 1960au wrth i nifer ddechrau poeni am sgil effeithiau'r newid, a mynegwyd yr amheuan yma yn araith enwog Enoch Powell, a ddyfynnodd linell gan Virgil yn rhagweld yr Afon Tiber yn 'ewynnu gan waed'. Dadl Powell oedd bod y gymdeithas yn newid i'r fath raddau nad oedd pobl bellach yn ei hadnabod fel eu cymdeithas nhw, ac mae gwrthdaro oedd canlyniad anochel y broses. Fe'i gwaharddwyd o Gabinet cysgod y Ceidwadwyr, ond dychwelyd y byddai'r themâu yn ei araith.

Erbyn diwedd yr 20fed ganrif roedd rhyddfrydwyr yn arbennig wedi datblygu'r cysyniad o amlddiwylliannedd fel modd o gyfiawnhau a dadlau'r achos dros sicrhau hawliau i grwpiau

CEIDWADAETH

lleiafrifoedd, gan ddangos nad oedd cynnal eu gwerthoedd a'u ffordd o fyw mewn tensiwn gyda gwerthoedd traddodiadol y gorllewin. Derbyniwyd y safbwyntiau i raddau gan geidwadwyr cymedrol, ond daeth tro ar fyd wedi'r ymosodiadau terfysgol ar y World Trade Center, a'r rhyfel ar derfysgaeth a ddilynodd. Rhoddwyd y bai gan nifer ar y methiant i integreiddio aelodau o'r gymuned Fwslimaidd yn y diwydiant ehangach, ac yn wir dyma ddadleuon y Prif Weinidog David Cameron yn 2011, er gwaetha'r ffaith ei fod yn unigolyn â safbwyntiau Ceidwadol traddodiadol, yn hytrach nag awdurdodaidd. Brigodd yr agweddau yma i'r wyneb yn ystod y trafod cyn refferendwm Brexit yn 2016, a mewnfudo yn bwnc llosg mawr wrth i'r sawl a oedd yn ymgyrchu o blaid ymadael yn rhoi'r bai am broblemau'r wladwriaeth ar fewnfudwyr. Gwelwyd rhaniadau ymysg Ceidwadwyr yn y blynyddoedd yma, gyda nifer yn troi at UKIP, a oedd yn mynegi syniadau llawer mwy awdurdodaidd, ymosodol a oedd yn dwyn Enoch Powell i gof. Roedd y Blaid Geidwadol ei hun wedi'i chwalu'n ddwy yn ogystal, a David Cameron erbyn hyn yn ei gweld hi'n anodd atal llif y syniadau asgell dde fwy eithafol. Yn amlach na pheidio, rhamantu am Brydain 'coll', difaru colled cymdeithasau a fu, a chwyno am danseilio cynyddol y Brydain draddodiadol oedd wrth wraidd y trafod – gan arddangos cymysgedd pwerus o geidwadaeth ramantaidd ac awdurdodaidd. Sgil effaith y newid yma yw nid yn unig y bleidlais Brexit i ymadael, ond hefyd newidiadau polisi er mwyn creu 'amgylchedd gelyniaethus' i fewnfudwyr. O ganlyniad mae nifer fawr o'r genhedlaeth hyn – 'cenhedlaeth Windrush' – a gyrhaeddodd o'r Caribî o'r 1940au ymlaen, wedi'u gwahardd o'r wlad oherwydd diffygion yn eu gwaith papur.

5.3 Lles: aiddosbarthiad a gwaith

Un o gonglfeini'r meddwl ceidwadol yw'r ffydd yn y cysyniad o gyfrifoldeb unigol. Hynny yw, bydd y Ceidwadwr yn gyffredinol yn credu ein bod ni fel bodau dynol yn rheoli ein gweithredoedd ac yn rheoli ein hamgylchiadau, heb ryw lawer iawn o ddylanwad o gyfeiriadau eraill. Ar y cyfan, bydd y Ceidwadwr traddodiadol yn ystyried y gwaith caled mae'n ei wneud, yr enillion mae'n cynilo, a'r parch mae'n ennyn o'i weithredoedd pob dydd yn ganlyniad uniongyrchol o'i ymdrechion nhw. Mae hyn mewn perthynas groes gyda sosialaeth, sydd yn ystyried y canlyniadau yma yn rhai sydd yn adlewyrchu ffawd dda'r unigolyn – y ffaith bod ganddo, er enghraifft, deulu cefnogol, digon o adnoddau, a galluoedd mae wedi'u hetifeddu. Am y rheswm yma nid yw'r sosialydd yn ystyried bod gennym hawl syml i gadw ein holl enillion – i ryw raddau maent yn ganlyniad i lwc sydd tu hwnt i'n hymdrechion a chyfrifoldeb fel unigolyn, ac i raddau hefyd nid yw llewyrch o unrhyw fath yn bosib heb ddibynnu ar y gymdeithas ehangach. Ar y llaw arall, bydd y ceidwadwr yn mynnu mai ef neu hi sydd yn haeddiannol a bod yr eiddo rydym wedi creu neu ennill trwy ymdrechion ni'n hunan i aros gyda ni.

Ceir goblygiadau amlwg o safbwynt syniadau megis treth, addysg a gwaith. I'r Ceidwadwr, lleiafswm o dreth dylem dalu oherwydd nid oes gan eraill yr hawl dros ein heiddo ni na chwaith y cyfoeth rydym yn creu trwy ein llafur. Dylem fod a rhwydd hynt i osod ein plant mewn ysgolion preifat gyda chyfleusterau anhygoel, oherwydd lle bod rhieni'n fodlon talu'r fath arian am addysg, a rhoi'r manteision mwyaf posib i'w plant, y mae eu dymuniadau nhw'n drech nag unrhyw ystyriaeth wrth sicrhau cydraddoldeb yn y gymuned. Yn wir, nid oes goblygiadau moesol

CEIDWADAETH

problematig i'r Ceidwadwr os yw'r math yma o arfer a pholisi yn arwain at gymdeithas anghyfartal iawn dros amser, oblegid y mae hierarchaeth iddyn nhw yn rhan nodweddiadol o'r gymdeithas ddynol. Nid canlyniad gwahanol gyfleoedd, neu adnoddau gwell neu fanteision materol yw anghydraddoldeb cymdeithasol, ond prawf bod yna wahaniaethau sylfaenol yn bodoli rhwng galluoedd pobl.

6. Ceidwadaeth a'r economi

O ystyried natur y dadleuon cyfoes a glywir yn cael eu mynegi gan aelodau o'r Blaid Geidwadol, gellid tybio bod Ceidwadaeth yn ideoleg sydd wastad wedi bod yn driw i rinweddau'r farchnad rydd a'r gred y dylid cyfyngu cymaint â phosib ar ymyrraeth y wladwriaeth yng ngweithrediad yr economi. Serch hynny, dylid pwysleisio mai datblygiad cymharol ddiweddar fu'r arfer i Geidwadwyr fynnu y dylid arddel daliadau o'r fath fel mater o egwyddor. Yn wir, dim ond gyda datblygiad y Dde Newydd yn ystod y 1970au y daeth niferoedd sylweddol o Geidwadwyr i leisio'r farn neo-ryddfrydol bod llewyrch economaidd yn ddibynnol ar 'wthio'r wladwriaeth yn ôl' a sicrhau cymaint o ofod a phosib i fenter breifat gan unigolion hunangynhaliol.

O edrych yn ôl ar y Geidwadaeth Draddodiadol a gâi ei harddel gan niferoedd helaeth hyd at y 1970au, fe welir safbwynt gwahanol iawn ynglŷn â sut y dylai'r wladwriaeth ymwneud â'r economi. Fel yr eglurwyd eisoes, un o nodweddion mwyaf amlwg y ffrwd benodol hon o Geidwadaeth oedd cred yn yr angen i ymwneud â gwahanol gwestiynau gwleidyddol mewn modd pragmataidd: i fod yn barod i gyflwyno diwygiadau cymdeithasol ac economaidd mewn modd gofalus, a hynny ym mha bynnag fodd a oedd yn ymddangos yn briodol o ystyried yr amgylchiadau a wynebwyd. O ystyried hyn, roedd Ceidwadwyr Traddodiadol, megis yr athronydd Saesneg, Michael Oakeshott, a hefyd gwleidyddion Saesneg megis Harold MacMillan ac R.A. Buttler, yn amheus o ddadleuon y Democratiaid Cymdeithasol a oedd yn mynnu mai dim ond trwy arddel 'rheolaeth wladwriaethol' y gellid sicrhau economi a fyddai'n gweithredu mewn modd teg ac effeithiol. Ond ar yr un pryd, bu iddynt fynegi amheumon mawr pan ddechreuodd rhai ar adain dde y sbectrwm gwleidyddol ddadlau y dylid felly mabwysiadu safbwynt a oedd yn ymwrthod ag unrhyw ymyrraeth wladwriaethol yn yr economi fel mater o egwyddor. Fel y dadleuodd Oakeshott, roedd y ddau safbwynt yn meddu ar yr un gwendid ideolegol yn y pendraw: *'A plan to resist all planning may be better than its opposite, but it belongs to the same style of politics'* (1962: 212)

O ganlyniad, tra bod Ceidwadwyr Traddodiadol wedi gochel rhag cofleidio ffydd y Democratiaid Cymdeithasol yng ngallu'r wladwriaeth i lywio'r economi, nid oeddent chwaith o'r farn y dylid gwrthwynebu polisiâu o'r fath mewn modd cwbl ddogmatig. Yn hytrach, barn y garfan yma o Geidwadwyr oedd y dylid bod yn barod i arddel pa bynnag raglen economaidd a oedd i'w weld yn gweithio ar y pryd – i fod yn bragmataidd. Yn y Deyrnas Unedig, dyma'r rheswm pam na fu i Lywodraethau Ceidwadol y 1950au a'r 1960au fynd ati i geisio dadwneud nifer o'r diwygiadau cymdeithasol ac economaidd pellgyrhaeddol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Lafur 1945-51 – mesurau a oedd yn cynnwys sefydlu'r gwasanaeth iechyd cenedlaethol, cyflwyno trefn addysg fwy cynhwysfawr a gwladoli sectorau diwydiannol pwysig megis glo, dur, nwy, trydan a'r rheilffyrdd. Yn ystod y degawdau dilynol, ymddangosodd y mesurau hyn i fod yn rhai a oedd yn dwyn ffrwyth ac felly bu Ceidwadwyr pragmataidd y cyfnod yn barod i'w derbyn a'u cynnal.

Fodd bynnag, erbyn heddiw mae'r farn economaidd ymhlith Ceidwadwyr wedi newid. Yn sgil anawsterau economaidd rhyngwladol mawr y 1970au, bu i'r math o ddadleuon a fynegwyd gan

CEIDWADAETH

y Dde Newydd ynglŷn â'r angen i gyfyngu ar rôl economaidd y wladwriaeth ennill mwy o hygredd. Arweiniodd hyn at newidiadau pwysig yn y math o raglenni polisi a gâi eu cynnig gan bleidiau gwleidyddol Ceidwadol, yn arbennig yma yn y Deyrnas Unedig a hefyd yn achos y Blaid Weriniaethol yn yr Unol Daleithiau. Roedd y rhaglenni polisi hyn yn rhai a oedd yn mynd ati o ran egwyddor i dorri ar lefelau gwariant cyhoeddus ac i leihau 'maint' y wladwriaeth, er enghraifft trwy breifateiddio ystod o ddiwydiannau a gwasanaethau a fu cynt yn rhan o'r sector cyhoeddus. Roedd hyn yn gyferbyniad llwyr i ymagwedd fwy pragmataidd a graddol Ceidwadwyr y degawdau cynt ac i raddau helaeth dyma fu'r duedd mewn cylchoedd Ceidwadol ers hynny.

7. Ceidwadaeth yng ngwleidyddiaeth Cymru

Fe wynebwr rhwystr sylfaenol wrth gynnig dadansoddiad o ddylanwad Ceidwadaeth yng Nghymru, oblegid prin iawn yw'r ffynonellau academaidd sy'n mynd i'r afael â'r pwnc. Adlewyrcha'r sefyllfa academaidd sefyllfa ehangach yn hynny o beth, sef y canfyddiad mai traddodiad Seisnig, estron, yw Ceidwadaeth. Gweithred leiafrifol, ar y gorau, felly, yw ysgrifennu am y blaid Geidwadol neu Ceidwadaeth yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae peryg bod hyn arwain at ganfyddiad sy'n ymylu'r traddodiad Ceidwadol mewn modd nad sy'n gweddu ei arwyddocâd cymharol yng Nghymru drwy gydol y cyfnod modern.

7.1 Y Torïaidd Hanesyddol yng Nghymru

Mae gwreiddiau'r term 'Tori' i'w canfod yn yr ail ganrif ar bymtheg, a'r cyfnod cythryblus a ddechreuodd gyda'r rhyfel cartref Seisnig. Daw'r gair o'r hen Wyddeleg, a'r term tóraidhe (heriwr neu leidr) ac fe'i defnyddiwyd yn wreiddiol i ddisgrifio'r Gwyddelod a barhaodd yn eu gwrthwynebiad i deyrnasiad Oliver Cromwell wedi diwedd y Rhyfel Cartref. Yn fwy diweddar, defnyddiwyd y term i ddisgrifio'r Aelodau'r Seneddol oedd yn cefnogi hawl Iago'r Ail i olynu ei frawd, Siarl yr Ail fel brenin. Roedd Iago wedi troi at yr Eglwys Gatholig mewn cyfnod lle'r roedd Protestaniaeth yn prysur ennill tir.

Ni pharhaodd y cysylltiad uniongyrchol yma â Chatholiaeth, ond parhaodd Torïaeth mewn ffurfiau eraill, ac fe adnabyddir y traddodiad bellach fel rhagflaenydd i'r Blaid Geidwadol ac Unoliaethol fodern a ffurfiwyd yn 1834 dan arweinyddiaeth Robert Peel. Conglfeini'r traddodiad Torïaidd oedd cefnogaeth gref i'r Frenhiniaeth, drwgdybiaeth o ddiwygio cymdeithasol radical, a chefnogaeth i Eglwys Loegr. Erbyn diwedd y ddeunawfed ganrif roedd y syniadau hyn wedi'u cyplysu â safbwyntiau mwy rhyddfrydol y Chwigiad, o dan ddylanwad ffigurau megis Edmund Burke, a'r Prif Weinidog, William Pitt the Younger. Dyma'r cyfnod lle gwelwyd Ceidwadaeth fodern yn ymffurfio yn y Deyrnas Unedig.

Profodd ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn gyfnod heriol i'r Blaid Geidwadol wrth iddi ymgodemu â chanlyniadau'r broses o ddemocrateiddio'r Deyrnas Unedig. Ehangwyd yr etholfraint yn raddol trwy gyfres o ddeddfau diwygio pwysig yn 1832, 1867 ac 1884 a chafodd hyn effaith fawr ar gefnogaeth a statws y blaid, yn arbennig felly yng Nghymru. Ers cyflwyno'r Deddfau Uno yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, tiffeddianwyr Ceidwadol oedd wedi dominyddu gwleidyddiaeth y wlad, gan ddal trwch y seddi seneddol. Fodd bynnag, newidiodd hyn o'r 1860au ymlaen wrth i fwy a mwy o ddynion cyffredin ennill yr hawl i bleidleisio ac estyn eu cefnogaeth i'r Blaid Ryddfrydol. Digwyddiad sy'n aml yn cael ei nodi fel symbol o'r newid mawr hwn oedd buddugoliaeth y Rhyddfrydwr, Henry Richard, ym Merthyr Tudful yn etholiad 1868. Yn wir, erbyn 1906 nid oedd yr un Aelod Seneddol Ceidwadol ar ôl yng Nghymru.

7.2 Y Ceidwadwyr yng Nghymru 1885-1997

Ni ddiflannodd y Ceidwadwyr o wleidyddiaeth Cymru yn ystod yr ugeinfed ganrif. Fodd bynnag, ni welwyd y blaid yn dod yn agos at adennill ei statws o'r cyfnod cyn-ddemocrataidd. Yn wir, ar ddiwedd y ganrif yn 1997 cafwyd etholiad arall lle ni lwyddodd y blaid i ennill yr un sedd etholiadol. O ystyried y cefndir hwn – ochr yn ochr â'r ffaith fod y Blaid Geidwadol yn gyson wedi sicrhau pleidlais yng Nghymru oedd rhyw 10% yn llai nag yn Lloegr – gellir deall sut datblygodd y canfyddiad nad yw Ceidwadaeth yn draddodiad perthnasol wrth drafod gwleidyddiaeth Cymru.

Yn wir, mae'n bosib bod rhai ffactorau strwythurol wedi cyfrannu at gyfyngu ar apêl Ceidwadaeth i etholwyr yng Nghymru. Er enghraifft, gan fod unigolyddiaeth ac eiddo yn tueddu i fod yn werthoedd sy'n meddu ar fwy o arwyddocâd i bleidleiswyr dosbarth canol ac uwch, efallai nad oedd yn syndod bod gwlad sydd â chanrannau uwch o'r boblogaeth yn perthyn i'r dosbarth gweithiol yn pleidleisio'n bennaf i bleidiau mwy asgell chwith. Ffactor arall sydd wedi derbyn cryn sylw wrth geisio esbonio methiant cymharol y Ceidwadwyr yw'r ffaith fod rhai o'r hen nodweddion sy'n mynd yn ôl at gyfnod y Torïaid – megis Anglicaniaeth, breningarwch a chyfoeth – wedi cyfrannu at gynnal y canfyddiad mai plaid Seisnig yn ei hanfod oedd y blaid Geidwadol.

Fodd bynnag, er gwaethaf y ffactorau hyn, dylid gochel rhag casglu mai amherthnasol fu lle Ceidwadaeth yng ngwleidyddiaeth Cymru. Yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif, daeth y blaid i sicrhau troedle mewn nifer o etholaethau y tu hwnt i'r ardaloedd diwydiannol. Yn wir, yn 1983 llwyddodd y blaid i sicrhau 14 o'r 38 sedd seneddol yng Nghymru. Roedd trwch y seddi hyn mewn ardaloedd gwledig a chymharol Seisnigedig megis Sir Benfro, Bro Morgannwg, arfordir y gogledd a'r ardaloedd hynny sy'n ffinio â Lloegr – yr ardaloedd a ddisgrifiwyd gan y gwyddonydd gwleidyddol, Denis Balsom, fel 'British Wales'.

Eto i gyd, nid dim ond fel grym Seisnig a Phrydeinig y dylid dehongli Ceidwadaeth yng Nghymru yn ystod yr ugeinfed ganrif. Yn arwyddocaol, cyfrannodd gwleidyddion Ceidwadol at lawer o'r datblygiadau polisi a welwyd mewn perthynas â'r iaith Gymraeg o'r 1970au ymlaen. Er enghraifft, roedd yr Ysgrifennydd Gwladol, Nicholas Edwards yn allweddol i'r trafodaethau arweiniodd yn y pendraw ar sefydlu S4C yn 1980. Yn fwy pwysig, roedd Syr Wyn Roberts, cyn Aelod Seneddol dros etholaeth Conwy ac is-weinidog yn y Swyddfa Gymreig, yn gwbl allweddol i ddatblygiadau megis Deddf Addysg 1988 (arweiniodd at sefydlu'r Gymraeg fel pwnc hanfodol yn y cwricwlwm ac at sefydlu'r arfer bod disgyblion yng Nghymru yn astudio cwricwlwm addysg gwahanol i Loegr), sefydlu Bwrdd yr Iaith Gymraeg, a hefyd Deddf Iaith 1993 a gyfrannodd at sicrhau statws cyhoeddus mwy amlwg i'r Gymraeg.

7.3 Ceidwadaeth yn oes datganoli

Er i'r Ceidwadwyr ymgyrchu yn erbyn sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol cynigiodd datganoli gyfle i'r blaid ail-sefydlu presenoldeb yng ngwleidyddiaeth Cymru yn dilyn ei cholledion mawr yn ystod etholiad San Steffan yn 1997. Gwelwyd lefel pleidlais a nifer seddi'r blaid yn y Cynulliad yn codi

CEIDWADAETH

ym mhob etholiad rhwng 1999 a 2011. Yn wir erbyn 2011 llwyddodd i ddisodli Plaid Cymru fel y brif wrthblaid ym Mae Caerdydd.

Yn ystod y cyfnod hwn bu ymgais fwrriadol i geisio mabwysiadu agwedd fwy cadarnhaol tuag at ddatganoli a hefyd i geisio Cymreigio delwedd y blaid. Roedd Nick Bourne, arweinydd y grŵp Ceidwadol yn y Cynulliad rhwng 1999 a 2011 yn allweddol i'r symudiad hwn. Ffigur pwysig arall yng nghyd-destun datblygiad Ceidwadaeth yng Nghymru yn ystod y cyfnod ôl-ddatganoli yw'r Aelod Cynulliad, David Melding. Mewn cyfres o ysgrifau trawiadol mae Melding wedi dadlau o blaid datganoli pellach i Gymru a hefyd yr angen am ddiwygio cyfansoddiadol sylfaenol ar draws y Deyrnas Unedig gan gynnwys mabwysiadu trefniadau ffederal llawn. Yn wir, mae dadleuon Melding yn adlewyrchu elfennau o Geidwadaeth Draddodiadol ffigurau megis Burke ac Oakeshott, yn benodol y dybiaeth na ddylid ymwrthod â newidiadau gwleidyddol a chymdeithasol mawr, ond yn hytrach, eu cofleidio mewn modd pragmataidd er mwyn gosod seiliau cryfach i'r dyfodol. Roedd presenoldeb unigolion megis Bourne a Melding yn rhengoedd y blaid Geidwadol yng Nghymru yn allweddol yn ystod y cyfnod wedi etholiad Cynulliad 2007. Bryd hynny cododd y posibilrwydd o sefydlu 'clymblaid Enfys' rhwng y Ceidwadwyr, Plaid Cymru a'r Rhyddfrydwyr er mwyn disodli'r llywodraeth Llafur a fu mewn grym ers cychwyn datganoli ar ddiwedd y 1990au. Dyma enghraifft arall o'r ymagwedd bragmataidd sy'n nodweddu gwleidyddiaeth nifer o Geidwadwyr Cymru.

Wrth gwrs, ni chafodd y glymblaid enfys ei sefydlu yn y pendraw. Y gwir amdani oedd bod amheuan dwfn ynglŷn â'r syniad i'w ganfod yn rhengoedd y tair plaid wahanol. Yn y cyswllt hwn, mae'n werth oedi am eiliad i ystyried yr agweddau gwahanol ynglŷn â'r cynllun a fynegwyd gan aelodau Plaid Cymru. A hithau'n blaid sydd, ers yr 1980au cynnar, wedi lleoli ei hun yn bendant ar chwith y sbectrwm gwleidyddol ac sydd, ar sawl achlysur, wedi disgrifio'i hun fel plaid sy'n arddel ffurf ar 'sosialaeth ddemocrataidd', nid oedd yn syndod bod nifer o'i haelodau wedi mynegi cryn anniddigrwydd ynglŷn â'r syniad o sefydlu clymblaid a fyddai'n golygu cydweithio â Cheidwadwyr. Ar yr un pryd, roedd nifer o aelodau eraill yn ddigon agored i'r syniad. Mae hyn yn tynnu sylw at y ffaith bod mudiadau cenedlaetholgar yn medru cwmpasu unigolion sy'n arddel ystod o safbwyntiau gwahanol ar hyd y sbectrwm chwith-de.

Yn wir, yn achos Cymru, mae'n bwysig nodi bod hanes syniadaethol y mudiad Cenedlaethol wedi cynnwys traddodiad Ceidwadol nodedig. Ffigur allweddol yn y cyd-destun hwn oedd, Saunders Lewis – bardd, dramodydd ac arweinydd Plaid Cymru yn ystod ei chyfnod cynnar. Yn ei ysgrifau niferus mae Lewis yn gyson yn cyfuno daliadau cenedlaetholgar gyda ffurf ramantaidd ar Geidwadaeth. Gwelir hyn, er enghraifft, yn ei ysgrif wleidyddol enwog, *Egwyddorion Cenedlaetholdeb*, lle mae'n dadlau y dylid dehongli'r bywyd a'r diwylliant Cymreig fel rhan o hen draddodiad Ewropeaidd ac y dylid ymdrechu i warchod y dreftadaeth hon trwy wrth-droi y diwydiannu mawr a brofodd Cymru yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Perthyna nodweddion rhamantaidd lled-debyg hefyd i rai o syniadau'r athronydd J. R. Jones, a gyhoeddodd amryw o ysgrifau dylanwadol ar genedlaetholdeb a'r cysylltiad rhwng iaith a hunaniaeth yn ystod y 1960au. Yn yr ysgrifau hyn ceir adlais o ddeheuad Jones i ddychwelyd at ryw fywyd a fu, un oedd yn rhydd o ddylanwad y diwylliant Eingl-Americanaidd bas a oedd, erbyn y 1960au, yn prysur ennill troedle ar draws ardaloedd Cymreicaf Cymru trwy'r cyfryngau

CEIDWADAETH

a'r teledu. Bygythiad i draddodiad a'r gymdeithas organig Gymraeg oedd yn poeni Jones yn anad dim.

8. Ceidwadaeth a gwleidyddiaeth fyd-eang

8.1 Realaeth Wleidyddol a'i Gwreiddiau

Ni cheir ideoleg neu ddamcaniaeth benodol sy'n dwyn yr enw 'Ceidwadaeth' ym maes cysylltiadau rhyngwladol, ac eto mae sawl meddylwr a thraddodiad deallusol yn y maes sy'n arddel syniadau Ceidwadol eu natur. Yn wir, mae Realaeth, y safbwynt sydd wedi dominyddu trafodaethau ar wleidyddiaeth ryngwladol ers degawdau yn ategu a nifer o syniadau a gwerthoedd Ceidwadol, er enghraifft pragmatiaeth, cred yn amherffeithrwydd y cymeriad dynol a hefyd pwyslais ar drefn ac awdurdod.

Mae ysgolheigion sy'n astudio cysylltiadau rhyngwladol wedi olrhain gwreiddiau'r traddodiad Realaidd yn ôl dros nifer o flynyddoedd. Cyfeirir yn aml at Thucydides, yr hanesydd a'r cadfridog Athenaidd o'r 5ed ganrif CC, fel tad Realaeth. Ef oedd awdur y gyfrol hanesyddol 'Hanes Rhyfel y Peloponesos' ac fe gaiff un bennod adnabyddus o'r gyfrol honno – Deialog Melios – ei chydabod fel clasur, sy'n adrodd cyfrolau am natur gwleidyddiaeth ryngwladol. Yn ogystal, ystyrir Awstin Sant, yr athronydd a'r diwinydd a gyrhaeddodd uchelfannau'r Eglwys Gristnogol yn ystod y 5ed ganrif fel dylanwad pwysig – yn benodol ei bwyslais ar natur ffaeledig a llygredig y cymeriad dynol. Ffigur arall o bwys yw'r Eidalwr, Niccolo Machiavelli (1469-1527), awdur y gyfrol adnabyddus, 'Y Tywysog' – math o ganllaw i arweinwyr gwleidyddol oedd yn dadlau y dylent fod yn barod i gymryd pa bynnag gamau oedd eu hangen er mwyn cynnal eu grym a'u dylanwad. Yn olaf, cyfeirir yn aml at syniadau'r Sais, Thomas Hobbes, ac yn enwedig ei ddarlun o fywyd yn y 'cyflwr naturiol' – cyflwr cymdeithasol dychmygol a nodweddiwyd gan wrthdaro parhaol yn sgil absenoldeb unrhyw awdurdod gwleidyddol.

8.2 Realaeth yr 20fed Ganrif

Er bod ei wreiddiau yn ymestyn yn ôl ymhell i'r gorffennol, yn ystod yr ugeinfed ganrif y gwelwyd Realaeth yn datblygu i fod yn gorff cydlynol o syniadau sy'n cynnig dehongliad o natur gwleidyddiaeth ryngwladol. Yn ystod y cyfnod hwn, cwestiwn canolog fu'n gyrru trafodaethau ymhlith meddylwyr realaidd fu: pam fod gwrthdaro, trais a rhyfela wedi bod yn nodweddiad mor gyson o'r ymwneud rhwng gwladwriaethau ar y llwyfan rhyngwladol. Yn wir, o'r safbwynt Realaidd, saif y cwestiwn hwn uwchlaw pob ystyriaeth arall wrth drafod gwleidyddiaeth rhyngwladol.

Erbyn heddiw, fe wahaniaethir rhwng dwy ffrwd Realaidd gwahanol a ddatblygodd yn ystod yr ugeinfed ganrif:

- **Realaeth Glasurol:** Dyma safbwynt a gysylltir â'r blynyddoedd yn dilyn yr Ail Ryfel Byd a gwaith meddylwyr megis Reinhold Niebuhr a Hans Morganthau. Yn nhyb y meddylwyr hyn, gellid dehongli tueddiadau gwleidyddol rhyngwladol – ac yn benodol y duedd tuag at drais a gwrthdaro – fel symptomau o natur ffaeledig y bersonoliaeth ddynol – ein tuedd tuag at ymddygiad hunanol a'n dyhead parhaol am rym a statws. O ganlyniad i'r tueddiadau cynhenid hyn, tybiwyd ei bod yn anochel y bydd ymwneud gwladwriaethau â'i gilydd wastad yn cael ei yrru gan ystyriaethau hunanol. Golyga hyn mai'r flaenoriaeth

CEIDWADAETH

bob tro fydd chwilio am gyfleoedd i ennill mantais dros eraill er mwyn dyrchafu'r 'budd cenedlaethol' – gyda'r angen i ennill mantais o ran grym milwrol yn sefyll uwchlaw popeth.

- **Neo-realaeth:** Dyma draddodiad Realaidd mwy diweddar a gaiff ei gysylltu yn bennaf â gwaith yr Americanwr, Kenneth Waltz. Yn wahanol i'r Realwyr Clasur, ystyriai Waltz mai natur anarchaidd y system ryngwladol, yn hytrach na gwendidau cynhenid y natur ddynol oedd y ffactor creiddiol wrth geisio deall pam fod gwrthdaro a thrais yn themâu parhaol mewn gwleidyddiaeth ryngwladol. Ceir adlais yma o syniadau cynharach Thomas Hobbes, gyda'r system ryngwladol o wladwriaethau sofran yn cael ei gymharu â'r 'cyflwr naturiol' lle bo unigolion yn byw heb unrhyw awdurdod uwch i gadw trefn. Yn ôl Waltz, o ganlyniad i'r ffaith nad oes unrhyw gorff sofran yn sefyll uwchlaw gwladwriaethau'r byd, mae hi'n anochel y byddant yn chwilio am gyfleoedd i sicrhau eu diogelwch trwy ehangu ar eu galluoedd milwrol a bydd hyn yn ei dro yn cymell cystadleuaeth ac ansefydlogrwydd.

8.3 Neo-geidwadaeth

Mewn termau bras iawn, gellir dehongli'r safbwynt realaidd fel un oedd yn gymwys er mwyn esbonio'r gyfundrefn ryngwladol yn oes y Rhyfel Oer, a'r frwydr am oruchafiaeth rhwng Unol Daleithiau America a'r Undeb Sofietaidd. Yn y cyd-destun hwn roedd safbwynt a oedd yn canolbwyntio ar gysyniadau megis pŵer, gwrthdaro a chydbwysedd grym yn un a oedd yn gallu cynnig esboniadau rhesymol. Wrth gwrs, erbyn diwedd yr 20fed ganrif roedd yr Undeb Sofietaidd wedi chwalu a'r Unol Daleithiau yn sefyll ar ben ei hun fel yr unig arch-bŵer byd-eang. Yn y cyd-destun hwn, fe ddaeth corff arall o syniadau Ceidwadol eu natur i ennill dylanwad, yn enwedig yn ystod cyfnod arlywyddiaeth y Gweriniaethwr, George W. Bush. Nodweddydd ideoleg Gweriniaethwyr megis Bush gan safbwyntiau neo-geidwadol a oedd yn pwysleisio trefn, awdurdod a disgyblaeth ochr yn ochr â daliadau efengylaidd penodol. Dyma syniadau a seiliwyd ar waith athronwyr megis Leo Strauss a Carl Schmitt.

Almaenwr oedd Strauss a symudodd i'r Unol Daleithiau fel nifer eraill yn ystod y blynyddoedd cyn yr Ail Ryfel Byd ac enillodd enwogrwydd fel aelod o 'Ysgol Chicago'. Roedd Strauss yn feirniad hallt o ryddfrydiaeth a'i thuedd, yn ei dyb ef, i bwysleisio gwerthoedd sylfaenol, hollgyffredinol. Yn ganolog i'w syniadau ar wleidyddiaeth ryngwladol roedd cred yn yr angen am elyn allanol – un sydd wedi'i adnabod fel yr 'arall'. Mae'r 'arall' hwn yn hollbwysig, yn nhyb Strauss, gan ei fod yn creu ffocws sy'n helpu i siapio hunaniaeth y genedl-wladwriaeth trwy gynnig endid allanol sy'n ymgorffori pob dim sy'n estron, yn wahanol ac yn beryglus. Trwy adnabod yr arall hwn, mae modd cadarnhau a phwysleisio'r hyn sy'n bwysig ac yn unigryw ynglŷn â'r genedl a thrwy hynny, cryfhau awdurdod, disgyblaeth a threfn ymysg y bobl.

Cafodd rhai o'r syniadau hyn eu hymgorffori ym mholisi tramor George W. Bush, yn arbennig wedi ymosodiad terfysgol ar *Ganolfan Masnach y Byd* ar y 11eg o Fedi, 2001. Wedi'r ymosodiad hwn yn enw'r grŵp Al-Qaeda, aethpwyd ati i ddiffinio'r gelyn yn y 'Rhyfel ar Derfysgaeth' fel un a oedd yn gwbl wahanol ac eithriadol, ac un a oedd yn arddel gwerthoedd a oedd yn gwrthyferbynnu'n llwyr â gwerthoedd a moesau'r gorllewin, ac UDA yn arbennig.

CEIDWADAETH

Rhoddodd hyn gyfle i bwysleisio rhinweddau gwerthoedd ‘Americanaidd’ a chreu polisïau domestig a thramor oedd yn seiliedig ar y nod o ennill yn erbyn y gelyn terfysgol allanol. Cyfrannodd y polisïau hyn, ynghyd â’r rhexreg a ddefnyddiwyd i’w cyfiawnhau at greu amodau a oedd yn ymdebygu i’r hyn a ddisgrifiwyd gan Carl Schmitt fel y ‘cyflwr o eithriad’ – cyflwr gwleidyddol eithriadol lle bo’n dderbyniol i’r wladwriaeth roi gweithdrefnau cyfansoddiadol arferol o’r neilltu a defnyddio grym ym mha bynnag ffordd oedd ei angen er mwyn sicrhau diogelwch. O dan amodau eithriadol o’r fath, daeth yn bosib cymryd camau megis agor gweryll dadleuol Bae Guantanamo – cam a fyddai wedi cael ei ystyried yn gwbl annerbyniol rai blynyddoedd yng nghynt.

8.4 Neo-ryddfrydiaeth: globaleiddio, datblygu a Chydsyniad Washington

Cysylltir y safbwynt neo-ryddfrydol gyda ffigurau Ceidwadol yr 1980au, yn arbennig Ronald Reagan, Arlywydd yr UDA, a Margaret Thatcher, Prif Weinidog y Deyrnas Unedig. Rhoesant ar waith syniadau meddylwyr megis von Hayek a Friedman, oedd yn eu hanfod yn rhoi pwyslais ar bwysigrwydd ac effeithlonrwydd y farchnad rydd uwchlaw pob dim. Mynegir y gred yma trwy bolisïau a oedd yn lleihau dylanwad y wladwriaeth, gyda llai o gymorth i rai rhannau o’r economi, ac ymgais i ‘breifateiddio’ nifer o wasanaethau a oedd gynt yn nwylo’r llywodraeth. Y rhesymeg tu ôl i’r safbwynt hwn oedd y byddai’r gystadleuaeth sydd yn ganolog i weithrediad cyfalafiaeth yn sicrhau gwell gwasanaethau a hynny am gost ratach.

Ar y gwastad rhyngwladol daeth agweddau neo-ryddfrydol o’r fath i gael eu mynegi’n fwy mynych a gyda mwy o arddeliad yn dilyn cwmp y Bloc Sofietaidd a’i system Gomiwnyddol wedi 1989. Arweiniodd hyn at ymlediad syniadau a pholisïau neo-ryddfrydol ar draws Dwyrain Ewrop. Yn ystod yr un cyfnod, gwelwyd gwledydd ar draws y Dwyrain pell yn symud i’r un cyfeiriad. At ei gilydd, ystyrir yr 1990au fel cyfnod lle’r oedd y farchnad rydd gyfalafol yn ymledu mewn modd mwy cynhwysfawr a phellgyrhaeddol nag mewn unrhyw gyfnod cynt – a lle’r oedd y byd yn ‘lleihau’ wrth i resymeg globaleiddio gymell gwladwriaethau i lacio eu ffiniau a chaniatáu mwy o weithgaredd economaidd rhyngwladol.

Roedd y 1990au hefyd yn gyfnod pan welwyd sylw cynyddol yn cael ei roi i’r anghydraddoldeb a’r tloedi enbyd a oedd i’w weld ar draws y byd. Rhoddwyd pwyslais cynyddol ar yr angen i sicrhau bod gwledydd a fu cynt yn aelodau o’r Ymerodraethau Ewropeaidd mawr yn ‘ennill tir’ ac yn ‘dal fyny’ yn economaidd â gweddill y byd. O’r safbwynt neo-ryddfrydol cofleidio cyfalafiaeth farchnadol oedd yr unig ateb. Pe bai gwladwriaethau datblygol y byd – gan ddilyn esiampl gwledydd y bloc Sofietaidd – yn cofleidio’r farchnad rydd ac yn agor eu hunain i fuddsoddiad gan fusnesau tramor byddai datblygiad a llewyrch yn dilyn. Crisialwyd y syniadau hyn gan yr ymadrodd ‘Cydsyniad Washington’ – sef cred mewn cyfres o arferion polisi a gytunwyd arnynt gan sefydliadau rhyngwladol mawr y ddinas honno, megis Banc y Byd, y Gronfa Ariannol Ryngwladol (IMF) a hefyd Trysorlys y llywodraeth Americanaidd. Ymhlith yr arferion polisi hyn roedd pwyslais ar yr angen i ganiatáu busnesau tramor i ymsefydlu yn y gwledydd dan sylw, yr angen i ganiatáu buddsoddiad uniongyrchol o dramor, a hefyd yr angen i breifateiddio gwasanaethau a chyfyngu ar reolaeth y wladwriaeth ar yr economi.

CEIDWADAETH

Erbyn dechrau'r mileniwm newydd roedd yna gydnabyddiaeth gynyddol o gyfyngderau'r cydsyniad Washington – yn benodol y manteision amlwg a ddaw i'r economïau cryfach, mwy datblygedig, a'r rhwystrau yn wynebu gwledydd llai datblygedig. O ganlyniad, pwysleisiwyd gan nifer, megis Joseph Stiglitz, yr angen i ymyrryd ac ailstrwythuro fframwaith yr economi rhyngwladol mewn modd mwy cytbwys, tra bod consensws wedi datblygu yn ogystal am yr angen i sicrhau strwythurau ac arferion llywodraethol mwy effeithiol o fewn gwledydd datblygedig.